Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

Prifysgol Abertawe
Swansea University

Cynllun Ffioedd a Mynediad 2018-19

Sefydliad Enw'r ymgeisydd:	Prifysgol Abertawe
Cyfeiriad yr ymgeisydd:	Parc Singleton Abertawe SA2 8PP

	Prif gyswllt	**Cyswllt arall**
Enw Cyswllt:	Robert Bowen	Louisa Parry
Teitl y swydd	Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad	Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad
Rhif ffôn:	01792 606235	01792 602050
Cyfeiriad e-bost	r.j.bowen@swansea.ac.uk	l.j.m.parry@swansea.ac.uk

Cynllun Ffioedd a Mynediad 2018-19

Canolbwynt a Chynnwys

Crynodeb Gweithredol

Mae Cynllun Ffioedd a Mynediad Prifysgol Abertawe yn dystiolaeth i'n hymrwymiad i ddarparu amgylchedd astudio cynhwysol sy'n cynorthwyo grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a'r holl fyfyrwyr i gyflawni o fewn addysg uwch. Mae'r **dull cynhwysol** hwn yn cyd-fynd â datganiad polisi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag ehangu mynediad..."Dylai Addysg Uwch fod ar gael i bawb sydd â'r posibilrwydd o elwa, waeth beth fo'u hoed, rhyw, eu dull astudio na'u lefel, eu gwlad enedigol na'u cefndir ..."

Mae canolbwynt a chynnwys y cynllun yn seiliedig o gwmpas gweithgareddau, gwasanaethau a mentrau fydd o gymorth i'r holl fyfyrwyr, gan gynnwys grwpiau a dangynrychiolir, i gael **Mynediad**, gwneud **Cynnydd**, cael eu **Cadw** a sicrhau **Deilliannau** cadarnhaol.[1] Dewiswyd y grwpiau a dangynrychiolir, sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun hwn, ar sail grwpiau blaenoriaeth presennol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer ehangu mynediad ac oddi wrth adolygiad o ddata proffil ein myfyrwyr ac maent yn cyd-fynd â Chynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol. Yn nodweddiadol, bydd y myfyrwyr hyn o gefndiroedd dan anfantais, â nodweddion gwarchodedig a/neu grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli ym mhoblogaeth ein myfyrwyr.

Mae cynnwys y cynllun wedi ei seilio'n gadarn ar fesurau Llywodraeth Cymru/CCAUC o gwmpas Cyfle Cyfartal a Hybu Addysg Uwch (AU) y gellir eu crynhoi drwy'r themâu canlynol:

- Denu myfyrwyr i gymryd rhan mewn AU (drwy eu cynorthwyo hefyd i ddeall gwerth AU) yn enwedig y rheiny o grwpiau a dangynrychiolir / cefndiroedd dan anfantais.
- Gweithgareddau a gwasanaethau cymorth i gynorthwyo myfyrwyr i wneud cynnydd, cwblhau, cyrraedd ac aros mewn addysg uwch.
- Gweithgareddau i wella profiad y myfyriwr.
- Darparu gwybodaeth effeithiol i gynorthwyo myfyrwyr i ddeall sut i gael mynediad i addysg uwch a chymorth, gan gynnwys gwybod faint y bydd eu cwrs yn ei gostio.
- Darparu cymorth academaidd a lles o safon uchel.
- Cymorth i symud ymlaen i astudiaeth bellach/cyflogaeth.
- Ymgysylltiad â phrifysgolion a chydweithrediad rhanbarthol.
- Gwella ansawdd dysgu, addysgu a phrofiad y myfyriwr.
- Cryfhau cyflogadwyedd Graddedigion Cymru.
- Hybu Addysg Uwch Cymru gan gynnwys ei hybu'n rhyngwladol.
- Darparu AU gynaliadwy.

Wrth fynd i'r afael â mesurau Cyfle Cyfartal a Hybu AU, mae'r Brifysgol wedi rhwymo 17.3% o'r incwm y bydd yn ei gynhyrchu yn 2018-19 o ffioedd myfyrwyr, sy'n cyfateb i £18.5 miliwn

[1] Diffiniadau ehangach:

Mynediad - Ennill mynediad i Addysg Uwch
Cynnydd - Symud yn llwyddiannus o un flwyddyn i'r nesaf ar gwrs
Cadw - Aros mewn Addysg Uwch
Deilliannau - Cymhwyster terfynol a chyflogaeth neu astudio pellach

(amcangyfrifwyd £16.9 miliwn yng nghynllun 2017-18). Defnyddir y buddsoddiad hwn i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau a swyddogaethau, fydd yn denu, cefnogi, cadw, datblygu a chynorthwyo myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir (a'r holl fyfyrwyr) i lwyddo mewn addysg uwch. At hynny, defnyddir y buddsoddiad hefyd i hybu a gwella effaith addysg uwch Cymru ar lefel leol, ranbarthol a rhyngwladol.

Llais y Myfyriwr

Ymgysylltu â chorff myfyrwyr Prifysgol Abertawe wrth ddatblygu, asesu a chwblhau'r Cynllun ffioedd a mynediad.
Mae Prifysgol Abertawe ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe yn gweithio mewn partneriaeth agos i sicrhau profiad o safon uchel i'r myfyriwr, gyda llais y myfyriwr yn parhau i fod yn ganolbwynt strategol mewn materion yn ymwneud â'r Brifysgol drwy gynrychiolaeth, cyfranogaeth ac ymgysylltu.

Mae egwyddorion ymgysylltu â myfyrwyr a phartneriaeth yn rhan greiddiol o holl weithgareddau a phrosesau'r Brifysgol. Mae Undeb y Myfyrwyr a Chynrychiolwyr y Myfyrwyr yn aelodau o gyrff llywodraethu uwch y Brifysgol sy'n siapio datblygiad strategol ac fel rhan o ddeialog barhaus mae'r Undeb wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd ac mewn fforymau trafod gydag uwch reolwyr academaidd a gweinyddol y Brifysgol. Mae deilliannau'r byrddau a'r pwyllgorau hyn yn dylanwadu ar wahanol agweddau ar fusnes y Brifysgol sy'n effeithio ar y Cynllun Ffioedd a Mynediad a hefyd weithrediad y cynllun ei hun drwy waith ein hacademïau addysgu, cyflogadwyedd ac ehangu mynediad.

Wrth ddatblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad 18-19, cynhaliwyd cyfarfod gydag Undeb y Myfyrwyr. Roedd hwn yn cynnwys trafod y gofynion ar gyfer y cynllun ac adolygu datblygiad templed cydymffurfio a gwerthuso'r Cynllun Ffioedd a Mynediad a gafodd ei groesawu gan yr Undeb. Mae Undeb y Myfyrwyr yn bartneriaid ym mhroses datblygu'r cynllun a bydd yn adolygu'r drafft cyntaf a'r adborth dilynol gan CCAUC. Ceir ymgynghoriad drwy'r e-bost wrth lunio drafft terfynol y cynllun. Bydd swyddogion yr Undeb hefyd yn chwarae rôl yn cefnogi'r cynllun pan gaiff ei gyflwyno i'r Tîm Uwchreoli / Cyngor i'w gymeradwyo.

Mae yna Weithgor Cynllun Ffioedd a Mynediad, dan gadeiryddiaeth un o'n Dirprwy Is-gangellorion, gyda chyfranogwyr o bob rhan o'r Brifysgol, ac mae Swyddog Addysg a Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn aelodau o'r pwyllgor hwn.

Cyfraniad llais y myfyrwyr, a gweithio mewn partneriaeth, i lywodraethu ac ansawdd.
Mae gan Brifysgol Abertawe ddull ymrwymedig, tymor hir o weithio mewn partneriaeth gyda myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr gyda golwg ar sicrwydd a gwella ansawdd academaidd a llywodraethu'r Brifysgol. Cyflwynwyd tîm penodol Gwasanaethau Partneriaeth ac Ymgysylltiad Myfyrwyr yn 2015 ac mae wedi parhau i wella'r gwaith partneriaeth rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr a chodi lefelau ymgysylltiad ac adborth myfyrwyr.

Llywodraethu
Mae'r Cyngor a'r Senedd, corff penderfynu academaidd uwch y Brifysgol, ill dau yn cynnwys aelodau sy'n fyfyrwyr. Mae myfyrwyr hefyd yn aelodau o is-bwyllgorau'r Senedd, sy'n ymdrin â meysydd academaidd gan gynnwys y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu, Safonau Academaidd ac Ansawdd, Bwrdd Strategaeth y Gymraeg, a'r Bwrdd Rheoliadau ac Achosion Academaidd. Mae proses adolygu a chymeradwyo rhaglenni ar Fwrdd Rheoli Rhaglenni a Phwyllgor Cymeradwyo Rhaglenni hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr. Ar y lefel hon, mae cynrychiolwyr y myfyrwyr fel rheol yn Swyddogion Llawn Amser yn Undeb y Myfyrwyr. Fodd bynnag, gall hyn gynnwys rhai cynrychiolwyr Coleg a swyddogion rhan-amser Undeb y Myfyrwyr.

Mae gan system Cynrychiolwyr y Myfyrwyr dros 250 o gynrychiolwyr ar lefelau Coleg a phwnc sy'n eistedd ar Bwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Coleg, Byrddau Astudio a Fforymau Staff-Myfyrwyr y Coleg. Mae adborth gan gynrychiolwyr myfyrwyr yn ffurfio rhan bwysig o agendâu byrddau astudiaethau a fforymau myfyrwyr y coleg. Mae fforwm penodol wedi ei sefydlu ar gyfer myfyrwyr cyfrwng-Cymraeg sy'n aelodau o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae eu hadborth yn cael ei dderbyn gan Fwrdd Strategaeth y Gymraeg y Brifysgol a hefyd Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Ansawdd
Mae myfyrwyr yn cael eu cynrychioli yn y prosesau adolygu ansawdd drwy aelodaeth ar banelau Adolygiadau Cyfnodol ac Adolygiadau Gwella Profiad Myfyrwyr (sydd fel arfer yn cael eu hysgogi gan adborth myfyrwyr). Gwahoddir myfyrwyr hefyd i'r panelau hyn i roi adborth ar eu profiad academaidd.

Mae adborth myfyrwyr drwy eu hatebion i arolygon yn ffurfio rhan fawr o'r prosesau adolygu ansawdd ac mae cyfradd uchel yr ymateb yn Abertawe yn ein galluogi i gael data cadarn iawn ar fodlonrwydd myfyrwyr ar eu rhaglenni. Mae adborth myfyrwyr ar lefel modiwl sy'n cael ei gasglu ddwywaith y flwyddyn hefyd yn cyfrannu i adolygiadau datblygiad proffesiynol y staff.

Cymharol ychydig o ddarpariaeth sydd gan y Brifysgol sy'n cael ei darparu gan bartneriaid. Cynrychiolir y myfyrwyr ar Fyrddau Astudiaethau yn y sefydliadau hyn sy'n bartneriaid a byddant yn cyfarfod yn rheolaidd gydag aelodau o gyfadran y Brifysgol i roi adborth i'r sefydliad. Caiff llais y myfyrwyr ac adborth myfyrwyr hefyd ei gasglu drwy arolygon Llais y Dysgwr o fewn sefydliadau ein partneriaid sy'n adrodd yn ôl i'r tiwtor cyswllt ar gyfer pob coleg.

Rydym yn cynnwys myfyrwyr pan fyddwn yn sefydlu darpariaeth newydd gyda sefydliadau sy'n bartneriaid ac yn cyfarfod â hwy fel rhan o'n proses cymeradwyo rhaglenni. Bydd Swyddogion Llawn Amser Undeb y Myfyrwyr yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Thîm Uwch-reolwyr y Brifysgol yn y cyfarfod SMT-FTO a hefyd yn cymryd rhan ym Mhwyllgor Ymgysylltiad Myfyrwyr a Phartneriaeth. Mae myfyrwyr hefyd yn cymryd rhan mewn prosiectau mawr a mentrau newid yn y Brifysgol megis Grŵp Profiad Campws y Bae, Gweithgor Cynllun Teithio a grwpiau Strategaeth Chwaraeon. Mae Prif Weithredwr Undeb y Myfyrwyr hefyd yn aelod o'r Tîm Rheoli Gwasanaethau Proffesiynol.

Adlewyrchu egwyddorion datganiad Wise Cymru ar bartneriaeth ar gyfer addysg uwch a chwalu rhwystrau i gyfleoedd i fyfyrwyr a gweithredu cymdeithasol ieuenctid.
Mae ymgysylltiad myfyrwyr yn Abertawe a'u rhan yn natblygiad y cynllun ffioedd a mynediad yn cyd-fynd â'r egwyddorion yn adroddiad Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Prifysgol y DU, *'Breaking Down the Barriers to Student Opportunities and Youth Social Action'.* Fel y cyfeirir yn ein Siarter Myfyrwyr mae Prifysgol Abertawe yn ymrwymedig i Ddatganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Addysg Uwch ac mae'n gweithio'n agos gyda myfyrwyr i sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu cynnal a bod swyddogaethau a chyfrifoldebau yn cael eu diffinio'n glir. Mae cyflwyno tîm Gwasanaethau Partneriaeth ac Ymgysylltiad Myfyrwyr yn cefnogi ymrwymiad y Brifysgol i wneud ymgysylltiad myfyrwyr yn rhan annatod o'i holl brosesau.

Sut y caiff lefelau ffioedd, gan gynnwys lefelau cyfansymiol ffioedd, eu cyfleu i fyfyrwyr.
Bydd ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth fanwl am lefelau ffioedd yn unol â rheoliadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd fel y gall myfyrwyr weld yn glir y cyfanswm neu gost lawn y radd y maent wedi ei dewis. Rydym hefyd yn ymrwymedig i gyrraedd a glynu at y safonau ansawdd o fewn canllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer addysg uwch.

Bydd y wefan hefyd yn cynnwys manylion y cymorth cysylltiedig fydd ar gael i fyfyrwyr cyn gynted ag y bydd hyn wedi ei gytuno gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) (neu wybodaeth amodol os yn briodol). Bydd y wefan yn cynnwys:

1. Gwybodaeth glir am lefelau ffioedd ar gyfer pob rhaglen a faint y dylai myfyrwyr ddisgwyl ei dalu am hyd eu rhaglen (hefyd wedi ei gynnwys yn ein Setiau Gwybodaeth Allweddol ar lefel rhaglen);
2. Gwybodaeth glir am gostau ychwanegol nodweddiadol, fydd efallai'n cael eu hachosi yn ystod cyrsiau neilltuol, megis yr angen i brynu cotiau labordy, offer personol neu gostau disgwyliedig teithiau maes ac yn y blaen.
3. Dolennau cyswllt i ffynonellau gwybodaeth a chymorth eraill, gan gynnwys gwefan myfyrwyr Wise Cymru sy'n cynnwys cyfrifianellau sy'n galluogi myfyrwyr i weld yn gyflym beth yw costau astudio a pha gymorth sydd ar gael iddynt;
4. Gwybodaeth sy'n ymdrin yn benodol â myfyrwyr sy'n: gohirio mynediad, astudio dramor, astudio'n rhan-amser; ailsefyll y cyfan neu ran o'r flwyddyn; neu'n astudio ar lefel heb fod yn radd; a
5. Gwybodaeth i fyfyrwyr sy'n astudio ym Mhrifysgol Abertawe o Loegr, Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a lleoedd eraill yn yr UE.

Bydd sgyrsiau ar gyllid myfyrwyr yn Niwrnodiau Agored y Brifysgol yn rhoi gwybodaeth glir i rieni a myfyrwyr am lefelau ffioedd a'r pecynnau cyllido statudol a'r bwrsarïau sydd ar gael gan y Brifysgol. Bydd y tîm derbyniadau a recriwtio myfyrwyr yn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i ddarpar fyfyrwyr a'u rhieni drwy eu gwaith mewn Ysgolion a ffeiriau recriwtio a chynulliadau Addysg Uwch. Rydym yn cefnogi Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru, sy'n gweithio i ddod â'r wybodaeth hon o fewn cyrraedd myfyrwyr sydd ar hyn o bryd wedi eu tangynrychioli mewn addysg uwch.

Ar amser ysgrifennu'r cynllun hwn (Gorffennaf 2017), lefel uchaf y ffi ar gyfer cyrsiau israddedig llawn amser a TAR ar gyfer 2018-19 yw £9,000 y flwyddyn. Pennir lefel uchaf y ffi gan Lywodraeth Cymru ac mae cymeradwyaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn yn caniatáu i'r Brifysgol osod y ffioedd ar y lefel hon.

Fodd bynnag, os bydd Llywodraeth Cymru yn deddfu i newid eu polisi ar uchafswm y ffi addysgu ar gyfer 2018-19 (Datganiad Llywodraeth Cymru[2]), efallai y caiff cynnydd chwyddiant o oddeutu 3.3% (seiliedig ar Fynegai Prisiau Manwerthu ac eithrio morgais) ei gymhwyso bob blwyddyn. Ar gyfer 2018-19, efallai y bydd hyn yn golygu y gallai'r ffi addysgu uchaf godi i £9,295. Os bydd y ddeddfwriaeth hon yn dod i rym yn ddiweddarach yn y flwyddyn, bydd y Brifysgol yn gwneud cais i CCAUC i gael codi lefel uchaf ei ffi i £9,295, yn amodol ar gymeradwyaeth foddhaol o amrywiad i'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn. Os caiff ei gymeradwyo, bydd y Brifysgol yn ysgrifennu'n syth at yr holl fyfyrwyr yr effeithir arnynt i'w hysbysu am y cynnydd posibl hwn yn y ffi.

Mae gan y Brifysgol hefyd nifer o raglenni lle mae'r ffioedd yn llai na'r ffi uchaf bresennol o £9,000, e.e. graddau sylfaen a ddarperir mewn partneriaeth gyda darparwyr eraill. Gellir gweld cost flynyddol y rhain yn Atodiad Aii, tabl D.

Waeth beth fo lefel y ffi, byddwn yn ysgrifennu at yr holl fyfyrwyr fydd yn gwneud cais am fynediad ar gyfer 2018-19 i'w hysbysu am y ffioedd, y trefniadau ar gyfer talu ffioedd a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Byddwn yn rhoi gwybodaeth iddynt am lefelau ffioedd ar gyfer pob blwyddyn o'u rhaglen astudio (er mwyn cyfrif cyfanswm y ffi ar gyfer y rhaglen gyfan), pan fydd y wybodaeth honno ar gael i ni. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at fyfyrwyr sy'n gwneud cais i Brifysgol Abertawe am fynediad yn 2018-19, a ohiriwyd o'r flwyddyn flaenorol, i'w hysbysu am y ffioedd.

Byddwn hefyd yn ysgrifennu at fyfyrwyr cyfredol, y gallai newidiadau i ffioedd effeithio arnynt, os byddant yn dewis symud i gwrs arall neu'n gorfod ailsefyll, i roi'r wybodaeth briodol iddynt.

Yn ychwanegol at gostau Ffioedd Addysgu a chostau byw, efallai y bydd rhai rhaglenni (neu fodiwlau) yn denu costau gorfodol neu ddewisol eraill sy'n angenrheidiol i fyfyrwyr allu cymryd rhan yn llawn yn y rhaglen o'u dewis a'i chwblhau. Bydd angen i fyfyrwyr baratoi i dalu'r costau hyn ar wahân, gan nad ydynt wedi eu cynnwys yn y Ffi Addysgu gyffredinol a godir. Gall costau o'r fath gynnwys teithiau gwaith maes, costau teithio i leoliadau gwaith neu astudio, costau labordy ac offer neu wiriadau CRB penodol i'r rhaglen. Bydd y Brifysgol a'i phartneriaid breiniol yn parhau i ymdrechu i leihau nifer a maint costau ychwanegol ond caiff manylion unrhyw gostau ychwanegol eu cyhoeddi ar dudalennau gwe y rhaglen unigol a byddant wedi eu cynnwys yn y wybodaeth am y rhaglen a anfonir i ymgeiswyr pan fydd cynnig yn cael ei wneud.

Bydd tîm Money@CampusLife y Brifysgol hefyd yn rhoi gwybodaeth a chyngor ariannol i fyfyrwyr presennol drwy sesiynau cyngor 'galw heibio', drwy borth arbennig y Brifysgol a thros y ffôn a thrwy'r e-bost. Mae'r gwasanaethau sydd ar gael gan Money@CampusLife yn cael eu

[2] http://gov.wales/newsroom/educationandskills/2017/third-of-students-eligible-for-maximum-grant-under-new-support-system/?skip=1&lang=cy

hysbysebu'n eang drwy sgyrsiau i fyfyrwyr, presenoldeb mewn Diwrnodiau Agored, Ffeiriau Croeso, drwy'r e-bost, y cyfryngau cymdeithasol a hysbysiadau ar y Bwrdd Bwletinau, ac mewn digwyddiadau amrywiol a phosteri o gwmpas y campws.

Mae yna hefyd Swyddog Cyfathrebu Myfyrwyr llawn amser i arwain a chynorthwyo i gyfathrebu'n effeithiol â myfyrwyr.

Y Rhesymeg dros Ddull ac Amcanion Strategol y Cynllun Ffioedd a Mynediad

Mae Prifysgol Abertawe yn mabwysiadu dull cynhwysol at ddarparu addysg uwch yn unol â datganiad polisi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag ehangu mynediad..."*Dylai Addysg Uwch fod ar gael i bawb sydd â'r posibilrwydd o elwa, waeth beth fo'u hoed, rhyw, eu dull astudio na'u lefel, eu gwlad enedigol na'u cefndir* ..." Mae ein dull yn cael ei gefnogi ymhellach gan adroddiad 2017 '*What Works? Student Retention and Success*', sy'n argymell, *"Other institutions seeking to develop excellence in learning and teaching and improve the student experience and outcomes adopt a whole institution approach"*[3]

Mae ein rhesymeg wedi ei seilio hefyd ar y canlynol:

i) Mae Prifysgol Abertawe wedi bod yn sefydliad ehangu mynediad llwyddiannus iawn am dros 30 mlynedd ac mae eisoes wedi cyrraedd lefel uchel o berfformiad o ran denu myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir.
ii) O ran recriwtio bwriadol yng Nghymru, mae'r gystadleuaeth oddi wrth Sefydliadau AU yn Lloegr ar gyfer myfyrwyr Mynediad Ehangach wedi bod yn gryfach na'r disgwyl, ac yn fwy nag mewn blynyddoedd o'r blaen.
iii) Mae ein lefelau o gadw myfyrwyr hefyd wedi bod yn gyson uchel (94.2% yn 2014-15).
iv) Mae'r gwasanaethau a'r ddarpariaeth sydd gennym i gefnogi myfyrwyr drwy recriwtio, cadw a chyrhaeddiad wedi eu hanelu at ac ar gael i'r holl fyfyrwyr ond rydym yn cydnabod bod grwpiau neilltuol o fyfyrwyr (e.e. grwpiau a dangynrychiolir) yn debygol o elwa mwy oddi wrth y gefnogaeth hon.

Mae buddsoddiad Prifysgol Abertawe mewn Hybu AU hefyd yn cyd-fynd â datganiad polisi Llywodraeth Cymru ar addysg uwch mewn perthynas â chyflogadwyedd, sicrhau "profiad amrywiol a gwahanol i'r myfyriwr" a gwella ansawdd.

Mae Cynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol wedi ei sefydlu ar lefel strategol ar draws y sefydliad, yn gyntaf drwy Grŵp Datblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad dan arweiniad Dirprwy Is-ganghellor, gyda chynrychiolwyr o Undeb y Myfyrwyr a chynrychiolwyr Ymgyrraedd yn Ehangach. Yn ail, mae'r targedau a'r ddarpariaeth allweddol hefyd wedi eu cynnwys yn y Ddogfen Cynllunio ac Ymgysylltiad Strategol ac yng Nghynllun Gweithredu Blynyddol y Brifysgol. At hynny, mae cynlluniau strategol eraill megis y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Safonau'r Gymraeg a'n mentrau newid strategol yn hyrwyddo'r nodau a'r amcanion cyffredin

[3] Cefnogi mynediad i fyfyrwyr: Strategies for institutional change. *What Works? Student Retention & Success programme.* Ebrill 2017, Sefydliad *Paul Hamlyn*

o greu amgylchedd astudio cynhwysol. Mae Cynllun Strategol y Brifysgol yn eistedd uwchben yr holl gynlluniau strategol eraill ac yn amlinellu'r ymrwymiad i wella profiad y myfyriwr ac ehangu cyfranogaeth.

Cynllun Strategol drafft y Brifysgol hyd 2020 - Ymrwymiadau

Ar amser ysgrifennu, mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn paratoi Cynllun Strategol newydd i fynd â'r Brifysgol ymlaen i'w chanmlwyddiant yn 2020. Er bod y cynllun yn dal i gael ei ddatblygu a bod yn bosibl iddo newid, mae ei fwriad strategol ar sail y Cynllun Ffioedd a Mynediad yn glir:

> *Byddwn yn trawsffurfio bywydau a dyfodol pobl drwy ddarparu amgylchedd academaidd rhagorol gyda chydbwysedd o ragoriaeth rhwng addysgu ac ymchwil o safon byd-eang, ac yn cael effaith drwy gydweithrediad rhanbarthol a byd-eang llwyddiannus."*

Mae ymrwymiadau drafft canlynol y canmlwyddiant yn uniongyrchol gysylltiedig â bwriad strategol darpariaeth y Cynllun Ffioedd a Mynediad:

- *Byddwn yn cynyddu cyfranogaeth myfyrwyr o grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, ac yn darparu cymorth o'r ansawdd angenrheidiol i'w galluogi i lwyddo.*
- *Byddwn yn darparu amgylchedd diogel, cynhwysol a chefnogol sy'n cadarnhau ein hymrwymiad i wella amrywiaeth ac sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial.*
- *Byddwn yn cynorthwyo ein myfyrwyr i sicrhau'r deilliannau uchaf yn bersonol, yn academaidd ac o ran cyflogaeth.*

- *Byddwn yn creu amgylchedd dysgu sy'n cefnogi ac yn cyfoethogi ar gyfer ein holl fyfyrwyr.*
- *Byddwn yn parchu ac yn gwerthfawrogi ein myfyrwyr fel partneriaid.*
- *Byddwn yn darparu amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol ac yn gweithio i gyfoethogi diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg.*
- *Byddwn yn creu ac yn gwella partneriaethau lleol a byd-eang sy'n dod â manteision i'n myfyrwyr, i'r staff ac i'r economi, y gymdeithas a'r gymuned ehangach.*
- *Byddwn yn cyfrannu i yrru twf economaidd, cynhyrchiant a ffyniant yn y rhanbarth, yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig.*

Dull Thematig o Ehangu Mynediad/Cyfranogaeth

Yn ystod 2017-18, bydd y Brifysgol yn gweithio tuag at ymyriadau thematig sy'n canolbwyntio ar feysydd mynediad, cadw, dilyniant a deilliannau. Y rhesymeg dros weithio'n thematig yw alinio amcanion allweddol y brifysgol yn well. Bydd y gwaith gyda phob Coleg/Ysgol academaidd yn adlewyrchu ei sefyllfa bresennol mewn perthynas â phob thema gan gymryd amrywiaeth y myfyrwyr i ystyriaeth ar gyfer meysydd pwnc a rhaglenni gwahanol. Mae'r dull hwn yn cydnabod bod blaenoriaethau Colegau/Ysgolion yn amrywio yn nhermau'r pedair thema; felly, i un Coleg, efallai y bydd ehangu mynediad yn broblem ond i un arall, efallai y

bydd y deilliannau o ran gradd yn amrywio i grwpiau gwahanol o fyfyrwyr. Mae'r pedair thema wedi eu rhestru isod:

- Mae **Mynediad** yn ymwneud â chodi uchelgais unigolion o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli sydd â'r potensial i elwa oddi wrth astudiaeth Addysg Uwch.

- Mae **Dilyniant** yn canolbwyntio ar gefnogi ac arfogi myfyrwyr â'r wybodaeth a'r sgiliau i symud ymlaen drwy eu cyrsiau.

- Mae **Cadw** yn ymwneud â chefnogi myfyrwyr i barhau a chwblhau eu hastudiaethau ac yn golygu ymyrryd cyn gynted ag y bo modd pan fydd myfyriwr yn ymddangos mewn perygl a sicrhau ei fod yn cael cymorth effeithiol mewn pryd.

- Mae a wnelo **Deilliannau** â darparu'r sgaffaldiau i sicrhau bod y myfyrwyr yn ennill y radd orau bosibl iddynt ac yn symud ymlaen yn effeithiol i gyflogaeth neu i astudiaeth bellach, waeth beth fo'u hamgylchiadau a/neu eu nodweddion.

Wrth edrych yn ôl ar gynnwys, canolbwynt a pherfformiad cynlluniau ffioedd blaenorol, cydnabuwyd bod ein lefel o gefnogaeth i fyfyrwyr o safon uchel. Oherwydd ein dull cynhwysol, rydym eisoes yn rhoi cymorth i fyfyrwyr o amrywiaeth eang o grwpiau a dangynrychiolir gan gynnwys cymorth ariannol, sgiliau astudio academaidd ac yn awr gyda chanolbwynt cynyddol ar gymorth lles fel y sonnir yn y cynllun eleni. Fodd bynnag, wrth i'r Brifysgol geisio amrywio a chydnabod yr heriau sy'n wynebu rhai o'i grwpiau o fyfyrwyr daeth yn angenrheidiol sicrhau bod yna strwythurau a phecynnau cymorth yn eu lle i gefnogi'r grwpiau hyn. Enghraifft dda o hyn yw ychwanegu'r grŵp a dangynrychiolir - 'myfyrwyr ag ystyriaethau ychwanegol' sy'n targedu cymorth at grwpiau eraill sy'n cael eu tangynrychioli megis pobl â phrofiad o fod mewn Gofal, Myfyrwyr sydd wedi Ymddieithrio a Myfyrwyr sy'n Ofalwyr.

Wrth ddatblygu Cynllun 2018-19 cynhyrchwyd templed peilot o Gydymffurfio a Gwerthuso i gynorthwyo'r Brifysgol i adolygu perfformiad Cynllun Ffioedd 2016-17. Dangosodd yr adolygiad hwn y dylai'r mwyafrif o'i weithgareddau barhau heb newid ond bod eraill angen mwy o gyfranogiad oddi wrth golegau academaidd a phartneriaid mewnol/allanol eraill er mwyn cael mwy o effaith. Datgelodd yr adolygiad hefyd yr angen i sefydlu dulliau addas o asesu effaith mentrau, yn amrywio o gasglu gwell gwybodaeth drwy ddata, nodi targedau priodol i fesur effaith/llwyddiant a, lle bo angen, casglu adborth myfyrwyr i weld pa wahaniaeth sydd wedi cael ei wneud. Mae llawer o'r ystyriaethau hyn wedi dylanwadu ar ddatblygiad darpariaeth Cynllun Ffioedd a Mynediad 2018-19.

O ran perfformiad targedau metrig yn y cynlluniau ffioedd blaenorol, mae'r Brifysgol yn fodlon ar y canlyniadau a sicrhawyd. Rhagorwyd ar y mwyafrif o'r targedau ac roedd rhai yn cadw eu cyfrannau (e.e. cyfrannau'r myfyrwyr o feysydd ehangu cyfranogaeth) sy'n her ynddi'i hun, a derbyn bod poblogaeth myfyrwyr y Brifysgol yn cynyddu'n sylweddol o fewn y cyd-destun ehangach o gystadleuaeth gynyddol am fyfyrwyr, llai o fyfyrwyr rhyngwladol yn cael eu recriwtio ar draws y DU a threfniadau cyllido gwahaniaethol ar draws sector AU.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod ei chynnydd mewn datblygiadau Dadansoddi Dysgu, yn enwedig mewn perthynas â monitro presenoldeb drwy ddarllen cerdyn ar gyfer yr holl

fyfyrwyr sy'n cael eu haddysgu, yn awr wedi ein galluogi i adnabod yn fuan y myfyrwyr sydd mewn perygl o wneud cynnydd gwael, ar sail dadansoddiad o'u hymgysylltiad â phob math o addysgu a amserlennwyd. Ein bwriad strategol gyda'r fenter hon yw dwyn ynghyd i mewn i un darlun ar gyfer staff a myfyrwyr eu hymgysylltiad â'u haddysgu, yr amgylchedd dysgu rhithwir ac asesiad. At hynny, drwy gyfrwng system reoli perthynas â chwsmeriaid (CRM), ceir un ffynhonnell o wybodaeth ar draws y Brifysgol am y cymorth a gynigiwyd ac a dderbyniwyd gan bob myfyriwr sy'n cael ei addysgu. Bydd dadansoddiadau dysgu yn cynyddu'r potensial i wella dilyniant myfyrwyr, eu cadw a hefyd y deilliannau i'r holl fyfyrwyr drwy'r system gymorth academaidd a bugeiliol.

Mae'r Brifysgol yn disgwyl buddsoddi £18.5 miliwn (17.3%) o gyfanswm ei hincwm o ffioedd yn 2018-19 (£1.6 miliwn yn fwy nag yn 2017-18) ar draws categorïau'r ddarpariaeth a restrwyd yn y cynllun. Mae'r buddsoddiad hwn wedi ei wneud mewn llawer o wasanaethau sy'n cefnogi cyfle cyfartal a hybu AU ac mae'n seiliedig yn gyfan gwbl o gwmpas darparu profiad dysgu cynhwysol sy'n cefnogi **Mynediad, Dilyniant, Cadw** a **Deilliannau** myfyrwyr. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Bywyd campws - arian, ffydd, rhyngwladol a lles,
- Gwasanaethau Cefnogi Cynhwysol i Fyfyrwyr - anabledd, lles, canolfan asesu ac Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Myfyrwyr Abertawe,
- Academi Cyflogadwyedd Abertawe,
- Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe,
- Academi ar gyfer Dysgwyr Proffesiynol,
- Swyddfa Recriwtio Myfyrwyr,
- Canolfan ar gyfer Llwyddiant Academaidd (yn cynnwys y Rhaglen Llwyddiant Academaidd, Tiwtora Arbenigol ar gyfer Llwyddiant Academaidd a mentrau Llwyddiant mewn Mathemateg ac Ystadegau),
- Academi Hywel Teifi,
- Gweithgarwch ar y cyd a chefnogaeth i Bartneriaeth Cyrraedd yn Bellach De-orllewin Cymru.

Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hefyd yn edrych yn ôl dros y ddarpariaeth, y cydweithrediad a'r gweithgarwch ar y cyd a ddarparwyd, y tu mewn a thu allan i'r sefydliad, yn enwedig yr ymdrechion hynny i greu amgylchedd astudio cynhwysol ac ehangu mynediad/cyfranogaeth. Mae ein perthynas agos â Phartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru (SWWRWP) yn enghraifft o'r dull hwn ac yn darparu menter arbennig ar y cyd i estyn allan. Mae'r SWWRWP yn cael ei chyllido'n bennaf gan CCAUC ond mae hefyd yn cael cymorth gan y Brifysgol o ran darparu swyddfa a chyfraniad i'r gyllideb gyflogau. Mae rheolwr SWWRWP yn eistedd ar y grŵp Cynllunio Ffioedd a Mynediad gan gynorthwyo i lywio sgyrsiau ynghylch grwpiau a dangynrychiolir a nodi blaenoriaethau i fynd i'r afael â hwy yn y cynllun.

Mae'r bartneriaeth yn sicrhau y gall y Brifysgol gefnogi gwaith SWWRWP ond hefyd ganolbwyntio ei sylw ar flaenoriaethau eraill i ehangu mynediad / cyfranogaeth. Er enghraifft, mae'r SWWRWP yn canolbwyntio ar waith gyda phobl ifanc ac ysgolion/colegau tra mae'r Brifysgol yn arwain ar waith sy'n targedu myfyrwyr aeddfed yn y gymuned. Mae'r bartneriaeth hefyd yn alinio gweithgareddau fel bod ymdrechion gan SWWRWP i ysbrydoli myfyrwyr o

gefndir mewn gofal i fynd i mewn i AU, er enghraifft, yn cael eu cefnogi gan y Brifysgol fel bod y myfyrwyr hyn yn cael mynediad (cynnig graddau is), gwneud cynnydd (cyfleoedd rhaglen Llwyddiant Academaidd), yn cael eu cadw (bwrsarïau a mentor pwrpasol) ac yn llwyddo (Academi Cyflogadwyedd Abertawe). Yn yr un modd, mae polisi derbyniadau cyd-destunol y Brifysgol yn cyd-fynd â grwpiau targed y SWWRWP ac mae'r rheiny sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau Ymgyrraedd yn Ehangach yn gymwys i gael ystyriaeth ychwanegol.

Gyda golwg ar strategaeth y Brifysgol i wella darpariaeth gyfrwng Cymraeg yn y Brifysgol, mae hyn yn seiliedig o gwmpas gweithio mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'n cynnwys trafodaethau gyda'r Coleg ynghylch y dull y dylai'r Brifysgol ei fabwysiadu a pha ddarpariaeth bellach y gellid ei datblygu yn y dyfodol (e.e. Seicoleg ac Addysg). Fodd bynnag, prif ffocws y Brifysgol yw tynnu sylw at y cyfleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd i ddarpar fyfyrwyr ac ehangu nifer y credydau sydd ar gael o fewn pob pwnc. Ar ben hynny, mae'r Brifysgol hefyd yn canolbwyntio ar sicrhau bod ganddi'r strwythurau a'r systemau perthnasol yn eu lle i gynnal addysg gyfrwng Cymraeg. Mae Academi Hywel Teifi yn y Brifysgol yn gweithio ar draws y Brifysgol i sicrhau bod myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn cael yr un cyfleoedd ar gyfer cymorth academaidd a chefnogaeth myfyrwyr. Llwyddir i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n manteisio ar y cyfleoedd hyn drwy amrywiaeth o weithgareddau megis cynnal Diwrnodiau Blasu cyfrwng Cymraeg a Diwrnodiau'r Fagloriaeth Gymreig; sicrhau rhaglen gefnogi sgiliau academaidd; a chynnig Gwobr Academi Hywel Teifi a Thystysgrif Sgiliau Cymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Amcanion y Cynllun Ffioedd a Mynediad

Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad wedi cael ei lunio i gyd-fynd â'r arweiniad a roddwyd gan Lywodraeth Cymru a CCAUC a thrwy wneud hynny, mae'r Brifysgol wedi penderfynu mabwysiadu'r 14 o fesurau a osodwyd ar draws Cyfle Cyfartal a Hybu AU fel amcanion ein Cynllun Ffioedd a Mynediad:

Cyfle cyfartal i gynorthwyo grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch:

1) hybu a diogelu mynediad teg i addysg uwch, gan gynnwys nodi unigolion sydd â'r potensial mwyaf o gefndiroedd dan anfantais;
2) denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir;
3) codi uchelgais a sgiliau pobl o grwpiau a dangynrychiolir i'w galluogi i lwyddo mewn addysg uwch;
4) cefnogi a chynyddu'r nifer sy'n cael eu cadw, yn gwneud cynnydd ac yn cwblhau, yn enwedig pobl o gymdogaethau lle mae'r gyfranogaeth yn isel, plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a rhai sy'n ofalwyr;
5) gwella profiad addysg uwch i grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch;
6) rhoi gwybodaeth effeithiol i grwpiau a dangynrychiolir cyn ac yn ystod eu hastudiaethau;
7) darparu cymorth academaidd a lles o safon uchel i grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch; a
8) cynorthwyo dilyniant i gyflogaeth neu astudiaeth bellach ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch.

Hybu Addysg Uwch:

1) ymgysylltu'n fwy effeithiol â chyrff preifat, cyhoeddus neu wirfoddol a chymunedau yng Nghymru;
2) gwella ansawdd dysgu ac addysgu, gyda golwg ar ansawdd profiad y myfyriwr;
3) cryfhau cyflogadwyedd graddedigion Cymru;
4) hybu addysg uwch Cymru'n fwy effeithiol yn rhyngwladol;
5) darparu addysg uwch gynaliadwy; a
6) chodi ymwybyddiaeth o werth addysg uwch i ddarpar ymgeiswyr.

Oherwydd natur orgyffyrddol mesurau Llywodraeth Cymru/CCAUC, dylid cydnabod y bydd darpariaeth o dan un mesur/amcan hefyd yn uniongyrchol yn cefnogi amcanion eraill. Enghraifft o hyn yw lle y bydd darpariaeth i gynnig bwrsarïau incwm isel yn cefnogi llawer o fesurau megis y rheiny i sicrhau mynediad teg a'r rheiny i ddenu a chadw myfyrwyr. Mae hyn wedi cael ei gydnabod wrth geisio amcangyfrif sut y mae buddsoddiad y Cynllun Ffioedd a Mynediad wedi cael ei rannu ar draws y 14 mesur/amcan.

Monitro Cynnydd a Chydymffurfio â'r Cynllun Ffioedd a Mynediad

Fel y soniwyd yn y rhesymeg, mae'r Brifysgol wedi datblygu Matrics peilot Cydymffurfio a Gwerthuso'r Cynllun Ffioedd a Mynediad. Rhoddwyd prawf ar hwn ar Gynllun Ffioedd 2016-17 gyda golwg ar ei ddatblygu ymhellach ar gyfer gwerthuso Cynllun Ffioedd a Mynediad 2017-18. Mae'r gwerthusiad yn ceisio adolygu'r prif weithgareddau o fewn cynllun ac adolygu'r llwyddiant yn erbyn y deilliannau a ddisgwylid, tra hefyd yn ystyried pa rannau a weithiodd/wnaeth ddim gweithio a beth y gellid ei wella wrth symud ymlaen. Fel arfer, yn y mis Chwefror (2020 ar gyfer cynllun 2018-19) y caiff cynlluniau eu gwerthuso pan fydd data ar gael yn barod i hysbysu iteriad nesaf y cynllun.

Grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli mewn addysg uwch

Wrth nodi a dewis y grwpiau a dangynrychiolir, oedd i gael eu cynnwys yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad, rhoddwyd ystyriaeth i'r prif strategaethau/blaenoriaethau ar lefel genedlaethol ac ar lefel y Brifysgol, cyfeiriwyd at ddata proffil ein myfyrwyr ac ymgynghorwyd â'n Grŵp Datblygu Cynllun Ffioedd a Mynediad sy'n cynnwys Undeb y Myfyrwyr a Phartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru (SWWRWP).

Cafodd y Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn ei hysbysu'n benodol gan Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol, gan ymateb yn benodol i un o'r pedwar deilliant y manylwyd arnynt yn y cynllun:

Deilliant 4 – O ganlyniad i ddiddymu'r rhwystrau i gyflawniad myfyrwyr sydd â nodweddion gwarchodedig, neu rai sy'n ddifreintiedig oherwydd eu cefndir economaidd-gymdeithasol neu amgylchiadau eraill, bydd y Brifysgol yn ennill cydnabyddiaeth allanol am ddarparu profiad rhagorol i'w myfyrwyr.

Mae llawer o'r grwpiau isod yn cael eu tangynrychioli mewn Addysg Uwch yn gyffredinol ac mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn rhoi manylion nifer o ddeilliannau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â myfyrwyr sydd â'r holl nodweddion gwarchodedig ac mae'r rhain wedi cael eu hystyried wrth nodi a dethol y grwpiau a dangynrychiolir oedd i gael eu cynnwys.

Dewiswyd y grwpiau canlynol i gael eu cynnwys:

Grŵp a dangynrychiolir	Rheswm dros ei gynnwys
Ehangu Mynediad / Cyfranogaeth - Myfyrwyr o ardaloedd cyfranogaeth isel fel y'u diffinnir gan godau post **POLAR3**.	Mae ar Lywodraeth Cymru a CCAUC eisiau annog myfyrwyr i fynd i mewn i AU yn enwedig o ardaloedd lle mae lefelau is o gyfranogaeth yn draddodiadol. Fel rheol, mae 31% o'n myfyrwyr ni'n dod o ardal lle mae cyfranogaeth mewn AU yn isel.
Myfyrwyr o gartrefi **incwm isel**	Rydym yn cydnabod na fydd myfyrwyr sy'n dod o deuluoedd ag incwm isel o reidrwydd yn byw yn yr ardaloedd difreintiedig cydnabyddedig (fel uchod) ond y byddant, er hynny, yn wynebu rhwystrau ariannol sylweddol. Yn 2015-16 roedd oddeutu 26% o fyfyrwyr israddedig yn gymwys ar gyfer ein bwrsari incwm isel i'w cynorthwyo gyda chostau byw tra roeddent yn astudio.
Myfyrwyr ag 'ystyriaethau ychwanegol'	**Plant sy'n derbyn Gofal (LAC)** - Mae'r grŵp hwn o fyfyrwyr (68 o fyfyrwyr i gyd ar draws pob math a lefel o astudiaeth yn 2016-17, +17 ar 15-16) yn parhau'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru/CCAUC, y Brifysgol a Phartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru, gan fod cyfran y Plant mewn Gofal a'r rhai sy'n gadael gofal sy'n mynd drwy TGAU i AU yn isel dros ben. Yn 2015-16, nid oedd myfyrwyr LAC yn cynrychioli ond 0.4% o gyfanswm myfyrwyr gradd gyntaf oedd yn dod i mewn i'r Brifysgol. **Myfyrwyr wedi Ymddieithrio** - Mae myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu rhieni yn grŵp y mae'r Brifysgol yn cydnabod eu bod yn profi heriau penodol. Mae 15 o fyfyrwyr yn 2016-17 ar hyn o bryd yn derbyn cymorth sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'u statws. Mae nifer o fentrau, gan gynnwys cymorth ariannol, a chyngor wedi ei dargedu, yn eu lle. Bydd rhoi cyhoeddusrwydd i'r cymorth sydd ar gael yn annog myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio i wneud eu hunain yn hysbys a mynd at y gwasanaethau perthnasol. **Myfyrwyr sy'n Ofalwyr -** Gall mynd i'r Brifysgol fod yn neilltuol o heriol i ofalwyr, gan y gall cydbwyso cyfrifoldebau allanol gydag astudiaethau fod yn heriol. Adlewyrchir hyn yng nghanfyddiadau astudiaeth a wnaed o fyfyrwyr sy'n ofalwyr gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Dangosai'r canlyniadau mai dim ond 36% o fyfyrwyr oedd yn ofalwyr oedd yn teimlo eu bod yn medru

	cydbwyso eu hymrwymiadau (megis gwaith, astudio a theulu / perthynas), o gymharu â 53% o fyfyrwyr nad oedd ganddynt gyfrifoldebau gofalu (NUS, 2013).
Myfyrwyr Cyfrwng Cymraeg	Grŵp blaenoriaeth arall i'r Brifysgol. Mae Llywodraeth Cymru a CCAUC yn ceisio hybu a hyrwyddo'r Gymraeg a darparu cyfle i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg i astudio eu dewis gwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae data proffil myfyrwyr Abertawe yn dangos fod ychydig dros 300 o fyfyrwyr i gyd yn astudio rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Abertawe'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i osod targedau ar gyfer darparu meysydd pwnc allweddol yn Gymraeg gyda golwg ar fynd i'r afael ag anghenion strategol diwydiant / sectorau, e.e. Nyrsio, Peirianneg a Meddygaeth.
Myfyrwyr Rhan-amser	Mae astudio rhan-amser yn dal yn flaenoriaeth i CCAUC gan ei fod yn cynorthwyo pobl i ennill cymwysterau galwedigaethol, yn ehangu mynediad ac yn cryfhau cysylltiadau â chyflogwyr. O fewn Prifysgol Abertawe, dim ond oddeutu 15% o fyfyrwyr israddedig (gradd gyntaf a di-radd) sydd ar gwrs rhan-amser. Mae mwyafrif y myfyrwyr hyn yn astudio cwrs di-radd gan mai dim ond oddeutu 1% o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf, gradd gyntaf sy'n astudio'n rhan-amser.
Myfyrwyr Aeddfed	Mae myfyrwyr aeddfed yn cael eu hystyried yn rhan o agenda ehangu mynediad gan Lywodraeth Cymru a CCAUC sy'n mabwysiadu dull pob oedran tuag at ehangu mynediad. Dengys data proffil myfyrwyr fod y gyfran o fyfyrwyr aeddfed (+21 oed) yn lleihau'n raddol ac yn awr yn cyfrif am 14% o israddedigion gradd gyntaf, llawn amser (8% ar gyfer +25 oed). Fodd bynnag, mae nifer y myfyrwyr mewn gwirionedd yn cynyddu, o 500 yn 2012-13 i 647 yn 2015-16. Mae'r ddarpariaeth ran-amser a gynigir yn Abertawe yn cynnig llwybr arall i fyfyrwyr aeddfed i ddilyn addysg uwch.
Myfyrwyr Anabl	Fel rhan o ymrwymiad y Brifysgol i gydraddoldeb ac amrywiaeth ac fel yr anogir gan CCAUC (gan gynnwys cyllid a dderbynnir i gynorthwyo myfyrwyr anabl) mae sicrhau y gall myfyrwyr anabl astudio yn Abertawe yn rhan bwysig o'n hagenda cynhwysiant. Yn y data proffil myfyrwyr, mae myfyrwyr anabl yn cyfrif am oddeutu 9.5% o'n myfyrwyr israddedig, gradd gyntaf, llawn amser. Er bod y gyfran wedi aros yr un fath i raddau helaeth dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y myfyrwyr sydd wedi cael eu cofrestru wedi cynyddu o 262 yn 2012-13 i 449 yn 2015-16.
Myfyrwyr Cartref Du ac o Gefndir Ethnig Lleiafrifol (BAME)	Mae data proffil myfyrwyr yn awgrymu bod nifer y myfyrwyr BAME, sy'n byw yn y DU, blwyddyn gyntaf, gradd gyntaf yn cynyddu. Yn 2012-13 roedd yna 258 (10.2%) yn cynyddu i 462

	(9.8%) yn 2015-16 sy'n cynrychioli twf o 79% mewn pedair blynedd yn unig. Fodd bynnag, mae yna fwlch cyrhaeddiad (y gyfran o'r rheiny sy'n ennill gradd yn y dosbarth cyntaf neu'r ail ddosbarth) rhwng myfyrwyr nad ydynt yn BAME, sy'n byw yn y DU, a rhai grwpiau o fyfyrwyr BAME sy'n byw yn y DU (sy'n cael ei gydnabod yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol). Fodd bynnag, fe fydd yna lawer o ffactorau yn dylanwadu ar y bwlch hwn, fydd y tu allan i reolaeth y Brifysgol, megis y cymwysterau wrth ddod i'r Brifysgol, y pwnc a astudir a'r gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad ar draws is-grwpiau BAME.
Ceiswyr Lloches	Ar hyn o bryd, os nad oes gan geisiwr lloches fodd i ariannu ei astudiaethau israddedig ei hun ar y gyfradd ryngwladol lawn, nid oes gostyngiad yn y ffi na chymorth ariannol i fyfyrwyr ar gael drwy'r Brifysgol. Nid yw ein cofnodion yn dangos (neu ar hyn o bryd yn gallu nodi) unrhyw Geiswyr Lloches sy'n astudio'n llawn amser ar gyfer gradd ym Mhrifysgol Abertawe. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yna ddiddordeb mewn darpariaeth o'r fath. Mae Abertawe hefyd wedi ei dynodi yn Ddinas Noddfa. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod angen adolygiad o'n dull o gefnogi ceiswyr lloches.
Nodweddion Gwarchodedig Eraill: **Crefydd a Chredo Tuedd Rywiol Ailbennu Rhywedd Beichiogrwydd a Mamolaeth**	Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall myfyrwyr hefyd feddu ar nodweddion gwarchodedig eraill. I'r grwpiau hyn, mae'n bwysig i ni ddarparu amgylchedd astudio cynhwysol lle y gall myfyrwyr gyrraedd eu potensial llawn, dileu rhwystrau i ddysgu, ymgysylltu â myfyrwyr a gwella eu profiad fel myfyrwyr. O fewn data proffil y myfyrwyr, mae gwybodaeth am y grwpiau hyn yn gyfyngedig ac, yn rhai achosion, nid oes gennym ddata o gwbl wedi ei gofnodi neu nid yw myfyrwyr yn dymuno datgan y wybodaeth. Mae'r hyn a wyddom wedi ei grynhoi isod: Mae data proffil myfyrwyr 2015-16 ar hyn o bryd yn dweud wrthym fod oddeutu 30% o fyfyrwyr gradd gyntaf, llawn amser yn ystyried eu bod yn perthyn i ryw fath o grefydd neu gred (23% Cristnogol, 4% Mwslim, 3% arall) ond gallai hyn fod yn uwch gan fod yn well gan 20% beidio â dweud. O'r rheiny oedd yn fodlon dynodi eu tuedd rywiol, mae'r data'n awgrymu bod llai na 5% o fyfyrwyr israddedig, gradd gyntaf, llawn amser â thuedd rywiol ar wahân i heterorywiol. Roedd yn well gan 24% beidio â dweud neu gadawyd y cwestiwn heb ei ateb.

Mesurau cyfle cyfartal sy'n cefnogi grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch:

1) hybu a diogelu mynediad teg i addysg uwch, gan gynnwys adnabod unigolion sydd â'r potensial mwyaf o gefndiroedd dan anfantais;

Mynediad: Galluogi unigolion o grwpiau a dangynrychiolir i fynd i mewn i addysg uwch drwy...

- Darparu ymweliadau **Swyddfa Recriwtio Myfyrwyr y DU i ysgolion a cholegau AB** sydd â chyfrannau uchel o ddisgyblion o grwpiau a dangynrychiolir.
- Cynnal y **rhaglen** ar-lein **Estyn Allan i Ysgolion a Cholegau** sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau i ysgolion a cholegau AB i gefnogi mynediad i addysg uwch.
- Cynyddu cyfraniad staff a myfyrwyr y Brifysgol i ddarpariaeth **Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru** (SWWRWP) os bydd CCAUC yn dal i ariannu darpariaeth yn 18-19.
- Cynorthwyo staff i **geisio arian allanol ar gyfer** gweithgaredd **ehangu mynediad** e.e. gan Academi Gwyddoniaeth Genedlaethol Cymru.
- **Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r gweithgareddau ehangu mynediad**, e.e. prosiect a gyllidir i raddau helaeth gan Undeb y Gymuned i godi uchelgais a chyrhaeddiad disgyblion mwy galluog a dawnus blynyddoedd 9-10 yn Ysgol Bae Baglan, Castell-nedd Port Talbot.
- Cynnig polisi mynediad cyd-destunol gan gynnig derbyn ar raddau is mewn amgylchiadau penodol.
- Darparu llwybrau dilyniant yn ffurf **blynyddoedd sylfaen** mewn Peirianneg a Gwyddoniaeth ar gyfer unigolion sy'n methu ag ennill mynediad uniongyrchol i flwyddyn gyntaf gradd israddedig lawn amser.
- Arweiniad gwell ar y **gefnogaeth ar gyfer anableddau** a chyflyrau eraill i ddarpar fyfyrwyr
- Rhwydwaith cymuned ymarfer ar gyfer staff i rannu arferion da a chydweithredu ar weithgareddau sy'n hybu cyfleoedd i grwpiau a dangynrychiolir.
- Cynhaliwyd **adolygiad o strategaeth ehangu mynediad y Brifysgol** a'i darpariaeth yn 2016-17. Efallai y bydd canlyniadau'r adolygiad hwn yn effeithio ar y gweithgareddau a gynhelir yn 2018-19
- Mae cynllun a awgrymwyd fyddai'n darparu cymorth i Geiswyr Lloches ar gyfer 2018-19 ar hyn o bryd yn cael ei drafod gan yr uwch reolwyr.
- Gweithgareddau i hybu **addysg uwch ran-amser i ddysgwyr sy'n oedolion** gan gynnwys deunyddiau hysbysebu, llyfrynnau, posteri, y cyfryngau cymdeithasol a gweithgaredd ar y we i hybu cyfleoedd i astudio gyda Choleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau ym Mhrifysgol Abertawe.
- Cynnal digwyddiadau agored seiliedig yn y gymuned, darlithoedd cyhoeddus yn y gymuned, sesiynau blasu (1.5 i 2 awr) a chyrsiau blasu am ddim (2 awr am 2 wythnos) i annog myfyrwyr aeddfed sydd wedi bod allan o addysg ers peth amser i fynd ymlaen i gyfleoedd astudio pellach.
- Modiwlau rhan-amser, byrion, 10 ac 20 credyd wedi eu hachredu ar lefel AU, sy'n cael eu cynnig ar draws yr holl gwricwlwm rhan-amser i ddysgwyr sy'n oedolion yn ystod y dydd a gyda'r nos ar Gampws y Parc ac yn y Gymuned.

• Cynnal rhaglenni achrededig Blas ar Addysg Uwch (rhan-amser) a Pharatoad ar gyfer Addysg Uwch (rhan-amser) ar gyfer myfyrwyr aeddfed. • Darparu chwe rhaglen israddedig ran-amser ar y campws ac mewn lleoliadau cymunedol i gefnogi ehangu cyfranogaeth.
Unedau Gwasanaeth Cyfrifol: Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS), Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Marchnata - Swyddfa Recriwtio Myfyrwyr y DU, Gwasanaeth Anabledd, Gwasanaethau Myfyrwyr.
Rhesymeg dros Weithgareddau: • Cyflawni datganiad polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ehangu mynediad..."Dylai addysg uwch fod ar gael i'r holl rai sydd â'r potensial i elwa, waeth beth fo'u hoedran, rhyw, eu dull na'u lefel o astudio, eu gwlad enedigol na'u cefndir..." • Er mwyn cyflawni amcan strategol Prifysgol Abertawe o ehangu mynediad i addysg uwch • Cyfrannu i Bartneriaeth SWWRWP er mwyn codi uchelgais, hybu mynediad i'r proffesiynau, paratoi myfyrwyr ar gyfer addysg bellach/uwch a hybu AU mewn modd effeithiol, o ychwanegu gwerth drwodd i weithgareddau sy'n targedu grwpiau a dangynrychiolir.
Grŵp(iau) myfyrwyr: Unigolion o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch
Targedau Bydd y gweithgareddau a restrwyd uchod yn gymorth i gyrraedd y targedau cyfranogaeth ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir a restrwyd yn Nhabl G

2) denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir, a all gynnwys myfyrwyr o gefndiroedd llai breintiedig a myfyrwyr sydd â nodweddion gwarchodedig;

3) codi uchelgais addysgol a datblygu sgiliau sy'n paratoi myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir ar gyfer addysg uwch;

4) cefnogi a chynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cael eu cadw ac yn cwblhau, yn enwedig y rheiny sydd o ardaloedd cyfranogaeth isel, plant sy'n derbyn gofal, gadawyr gofal a gofalwyr;

7) darparu cymorth academaidd a lles o safon uchel i fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir;

Mae'r Brifysgol wedi penderfynu grwpio'r pedwar amcan uchod gan eu bod i gyd yn ymwneud mewn rhyw ffordd â denu, cadw a dilyniant myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir.

MYNEDIAD:

Gweithgaredd:
Graddau Sylfaen, a achredir gan Brifysgol Abertawe ac a gyflwynir mewn partneriaeth gyda Cholegau Addysg Bellach. Mae'r rhain yn darparu llwybrau i mewn i Beirianneg, Cyfrifiadureg a meysydd astudio galwedigaethol eraill ar lefel AU, gyda'r posibilrwydd o fynd ymlaen i raddau baglor.

- Mae Gradd Sylfaen mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrthi'n cael ei datblygu gan Goleg Sir Benfro ar hyn o bryd a bydd yn cynnwys bwrsari ffi, fydd yn lleihau cost y cwrs dros y ddwy flynedd.
- Rydym yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o ddarparu Prentisiaethau Uwch a Gradd i gael eu datblygu a'u cyflwyno mewn partneriaeth gyda diwydiant a cholegau AB.

Darperir gan: Mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei chychwyn a'i chyd-drefnu gan Bartneriaeth Sgiliau Prifysgol y Coleg (CUSP).

Rhesymeg:
Datblygir y Graddau Sylfaen gyda chyflogwyr mewn ymateb i'w hanghenion sgiliau hwy a byddant yn darparu llwybr dilyniant i mewn i Addysg Uwch. Bydd prentisiaethau gradd yn darparu llwybrau dilyniant i AU a chymwysterau uwch gwahanol. Drwy ddarparu astudio mewn cydweithrediad â phartneriaid mewn AB (Coleg Sir Benfro, Coleg Gŵyr Abertawe, Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot a Choleg Cambria), mae'r Brifysgol yn gallu darparu mynediad i addysg uwch ar lefel leol. Cychwynnir datblygiadau pellach pan fydd gwybodaeth am yr adnoddau fydd ar gael a'r fframweithiau wedi eu hegluro gan CCAUC.

Grŵp(iau) Myfyrwyr
Dengys proffil y myfyrwyr ar y Graddau Sylfaen fod gan 53% o fyfyrwyr nodweddion Ehangu Mynediad, yn enwedig gan fod y graddau hyn yn denu dynion ifanc gwyn o ardaloedd cyfranogaeth isel. Efallai na fydd prentisiaethau gradd yn denu proffil Ehangu Mynediad uchel cyffelyb.

Targedau:
- Sicrhau cymorth ariannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer Graddau Sylfaen.
- 50% o grwpiau targed Ehangu Mynediad yn y Graddau Sylfaen,
- 85% cadw, dilyniant a chwblhau Graddau Sylfaen yn llwyddiannus,
- 25% dilyniant i raddau Baglor o Raddau Sylfaen,
- Datblygu 3 Prentisiaeth Gradd mewn Peirianneg, Gweithgynhyrchu Uwch a TGCh, os bydd yr adnoddau sydd ar gael yn gwneud hyn yn gynnig posibl.

Recriwtio mwy o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg
Parhau i ddatblygu darpariaeth gyfrwng Cymraeg y Brifysgol. Bydd peth o hyn mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a gobeithiwn gynnig darpariaeth fydd yn galluogi myfyrwyr i ennill Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg.

Mae gweithgareddau i ddenu a chadw siaradwyr Cymraeg yn cynnwys:
- Diwrnodiau Blasu Cymraeg ar gyfer Blynyddoedd 12 ac 13 ar draws ystod o bynciau academaidd;

- Partneriaeth rhwng Tŷ'r Gwrhyd ac Ymgyrraedd yn Ehangach Prifysgol Abertawe i gynorthwyo ysgolion cyfrwng Cymraeg gyda disgyblion o gefndiroedd dan anfantais;
- Diwrnodiau Blasu ar gyfer disgyblion galluog a dawnus mewn Meddygaeth a Pheirianneg;
- Ysgol Haf Breswyl ar gyfer myfyrwyr Ieithoedd Modern a'r Cyfryngau;
- Diwrnodiau Sgiliau Academaidd y Fagloriaeth Gymreig drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Ysgoloriaethau a bwrsarïau ar gyfer trosi myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg i ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg (yn 16-17 y cyfanswm a ddyrannwyd oedd £5,300, a arweiniodd at wobrwyo 23 o fyfyrwyr am lefelau amrywiol o gredydau a astudiwyd yn Gymraeg).

Darperir gan: Academi Hywel Teifi

Rhesymeg: Annog myfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg i fanteisio ar ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg sydd ar gael ac felly gwella eu cyfleoedd o lwyddiant gyda'u hastudiaethau a chyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

Grŵp(iau) Myfyrwyr: Myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg

Targedau:

- Cynnydd yn y niferoedd sy'n astudio 5+ credyd (o 299 yn 15-16 i 430) neu 40+ o gredydau (o 102 yn 15-16 i 150) yn Gymraeg ar gyfer 18-19.
- Cynnydd yn niferoedd y myfyrwyr y dyfernir ysgoloriaeth recriwtio neu drosi iddynt o 23 (16-17) i 40 (18-19).
- **Prosiect Tŷ'r Gwrhyd**
  gweithgaredd 16-17 = 9 disgybl o 1 ysgol.
  18-19 = cynyddu'r niferoedd i 50 o siaradwyr Cymraeg yn ymgysylltu â'r prosiect ar draws 5 ysgol.
- **Diwrnodiau Blasu / Sgiliau AU cyfrwng Cymraeg** - cynnig 4 diwrnod y flwyddyn, yn targedu 400 i gyd o ddarpar fyfyrwyr. Edrych ar gyfle i drefnu sioe deithiol oddi ar y campws ar draws Cymru.
- **Diwrnodiau Sgiliau Academaidd y Fagloriaeth** - cynnig 2 ddiwrnod, un yn Ne Cymru a'r llall yng Ngogledd Cymru. Anelu at ddenu 250 o ddarpar fyfyrwyr i gyd.

Pecynnau cymorth i fyfyrwyr ag ystyriaethau ychwanegol:

Pecyn Cymorth i rai sy'n Gadael Gofal:

- Cynllun Gostyngiad mewn Graddau ar gyfer rhai sy'n Gadael Gofal,
- Bwrsari o £1000 y flwyddyn (israddedigion) neu Fwrsari o £1000 y cwrs (ôl-raddedigion),
- Cymorth ariannol i fynychu diwrnodiau agored ym Mhrifysgol Abertawe,
- Cyfleu y cymorth sydd ar gael drwy waith estyn allan, gwybodaeth benodol ar y we, sgyrsiau a Diwrnodiau Agored.

Pecyn Cymorth i Ofalwyr – Amrywiaeth o gymorth wedi ei dargedu ar gyfer gofalwyr sy'n cynnwys bwrsari ac enw cyswllt a blaenoriaeth ar gyfer mynediad i Gronfa Cyfleoedd Prifysgol Abertawe.

Cymorth i Fyfyrwyr sydd wedi Ymddieithrio - Mae hwn ar gael i fyfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd ac sydd heb gymorth teuluol nac ariannol. Bydd y Brifysgol:

- Yn rhoi blaenoriaeth o ran mynediad at gronfeydd dewisol/caledi,
- Cyfleu'r cymorth sydd ar gael drwy waith estyn allan, gwybodaeth benodol ar y we, sgyrsiau a Diwrnodiau Agored,
- Rhoi cymorth penodol i hwyluso/cynorthwyo i wneud cais am Gyllid Myfyriwr,
- Enwi person i weithredu fel un pwynt cyswllt rhagweithiol ar gyfer myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio,
- Eu galluogi i gynnig am gydnabyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael drwy'r Addewid Annibynnol,
- Rhoi sgyrsiau gwybodaeth i staff i godi ymwybyddiaeth o anghenion penodol, a'r heriau a wynebir gan fyfyrwyr sydd wedi ymddieithrio.

Darperir gan: Gwasanaethau Myfyrwyr

Rhesymeg dros y ddarpariaeth:
Pecyn Cymorth i rai sy'n Gadael Gofal: Darparu pwynt cyswllt cyson ar gyfer darpar fyfyrwyr sy'n gadael gofal drwy gydol y cyfnod o recriwtio a thrawsnewid a thrwy gydol eu hastudiaeth. Hwyluso mynediad i AU a hybu integreiddio ar ôl cyrraedd. Mae'r pecyn cymorth ariannol yn sicrhau bod y grŵp hwn o fyfyrwyr yn gallu cwrdd â chostau ychwanegol llety ar hyd y flwyddyn. Bod o gymorth i ddenu a chadw'r myfyrwyr hyn.

Pecyn Cymorth i Ofalwyr: Gall mynd i'r Brifysgol fod yn neilltuol o heriol i ofalwyr, gan y gall cydbwyso cyfrifoldebau allanol gydag astudiaethau fod yn anodd. Adlewyrchir hyn mewn canfyddiadau astudiaeth o fyfyrwyr sy'n ofalwyr a gynhaliwyd gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Dangosai'r canlyniadau mai dim ond 36% o ofalwyr oedd yn fyfyrwyr oedd yn teimlo y gallent gydbwyso eu hymrwymiadau (megis gwaith, astudio a theulu/perthynas), o gymharu â 53% o fyfyrwyr nad oedd ganddynt gyfrifoldebau gofalu (NUS, 2013).

Myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio: Mae myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd yn wynebu heriau penodol. Anaml y maent yn derbyn cefnogaeth ffurfiol, seiliedig yn y gymuned, ac nid ydynt eto'n cael eu cydnabod fel grŵp penodol o fewn proses gais UCAS. Hyrwyddir cadw myfyrwyr drwy sicrhau bod y rhai sydd wedi ymddieithrio yn gallu cael mynediad at becyn cyllido llawn, wrth iddynt wynebu heriau ychwanegol o ran dangos tystiolaeth i'w statws pan fyddant yn gwneud cais am gymorth ariannol myfyrwyr. Hyrwyddir cadw myfyrwyr drwy gynorthwyo'r rhai y mae eu teuluoedd yn chwalu a hwythau'n ymddieithrio yn ystod eu cyfnod astudio.

Grwpiau Myfyrwyr: Rhai sy'n Gadael Gofal, Gofalwyr (ac eithrio rhieni os nad ydynt yn gofalu am blentyn/plant ag anableddau neu anghenion meddygol eraill) a Myfyrwyr sydd wedi Ymddieithrio.

Targedau:
Y nod gyntaf yw canfod cymaint o fyfyrwyr ag ystyriaethau ychwanegol ag y gallwn.

Pecyn Cymorth i rai sy'n Gadael Gofal:

- Y niferoedd a dderbyniodd gymorth yn 16-17: 54 o fyfyrwyr israddedig newydd a pharhaus. Nid yw pawb yn dewis gwneud cais am fwrsari, dim ond mynediad at gymorth sydd ar rai ei eisiau.

- Y niferoedd a ddisgwylir yn 18-19: 57, gan gynnwys myfyrwyr sy'n parhau. (Mae 18 o'r myfyrwyr presennol i fod i raddio yn 2018-19).

Cymorth i Fyfyrwyr sydd wedi Ymddieithrio:
Nifer y myfyrwyr a wnaeth gais am gymorth yn 2016-17: 15 (mae'r ffigur hwn yn cynnwys 6 o fyfyrwyr presennol sy'n gwneud cais am gymorth, fydd yn graddio naill ym mlwyddyn academaidd 18-19 neu 19-20). Ffigur targed am 2018-19: 17

Y Pecyn Cymorth Ariannol a ddarperir gan y Brifysgol i ddenu, cynnal a chadw myfyrwyr gan gynnwys y rheiny o grwpiau a dangynrychiolir.

- **Bwrsarïau cysylltiedig ag Incwm** i fyfyrwyr o deuluoedd incwm isel (incwm teuluol o lai na £30,000) sy'n werth rhwng £1,000 a £3,000 ar draws gradd dair blynedd.
- **Bwrsari un sy'n gadael gofal** o £1,000 y flwyddyn (ar ben unrhyw fwrsari gysylltiedig ag incwm).
- **Cronfa Galedi Myfyrwyr £300,000** i fod o gymorth i atal myfyrwyr rhag tynnu'n ôl oherwydd anhawster ariannol (a chynorthwyo Myfyrwyr Anabl sy'n gwneud cais am brawf diagnostig rhagarweiniol cyn gwneud cais am Lwfans Myfyriwr Anabl).
- **Bwrsarïau Symudedd** o £1,000 i gynorthwyo i dalu'r gost o weithio neu astudio dramor fel rhan o gwrs myfyriwr gan gynnwys £250 ar ben hynny ar gyfer myfyrwyr o deuluoedd incwm isel.
- **Ysgoloriaethau Rhagoriaeth a Theilyngdod** a ddyfernir i fyfyrwyr, waeth beth fo'u cefndir, yn seiliedig ar gyrhaeddiad academaidd blaenorol.
- **Cyngor a chymorth** ar gael o swyddfa **Money@CampusLife** y Brifysgol yn bersonol neu ar-lein - 18 awr yr wythnos (wedi ei rannu yn gyfartal ar draws Campysau Singleton a'r Bae) o wasanaethau galw heibio yn ogystal ag apwyntiadau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Dros 13,000 o gysylltiadau â myfyrwyr, yn ymwneud ag arian, yn 2015-16.

Darperir gan: Y Brifysgol

Rhesymeg: Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod cefnogaeth ariannol a chyngor, yn enwedig i'r myfyrwyr hynny o deuluoedd incwm isel neu gefndiroedd dan anfantais, yn chwarae rôl mewn cynorthwyo myfyrwyr i aros mewn addysg uwch.

Grwpiau Myfyrwyr: Yr holl fyfyrwyr gan gynnwys myfyrwyr o gartrefi incwm isel, Plant sy'n derbyn Gofal, Myfyrwyr sydd wedi Ymddieithrio, Myfyrwyr sy'n profi caledi ariannol a Myfyrwyr Anabl.

Targedau:
Niferoedd y myfyrwyr sy'n gwneud cais am gymorth a'r gwariant yn erbyn y cyllidebau.
Mae targedau di-barhad i'w gweld yn Atodiad Aii.

DILYNIANT:

- **Cymorth academaidd iaith Gymraeg gyda'r Rhaglen Llwyddiant Academaidd**
- **Tystysgrif Gymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Darperir gan: Academi Hywel Teifi a'r Ganolfan ar gyfer Llwyddiant Academaidd

Rhesymeg: Annog myfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg i fanteisio ar y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg sydd ar gael er mwyn gwella eu gobaith o lwyddo gyda'u hastudiaethau a chyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol. Ymrwymiad i ddarparu profiad a chymorth academaidd cyfartal i fyfyrwyr p'un a ydynt yn astudio yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ymgysylltu â gwella profiad myfyrwyr yn Abertawe a chyfrannu i gyflawni targedau'r Brifysgol ar gyfer y niferoedd sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Grŵp Myfyrwyr: Myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg

Targedau:

- Cynnydd yn y niferoedd sy'n astudio 5+ credyd (o 299 yn 15-16 i 430) neu 40+ o gredydau (o 102 yn 15-16 i 150) yn Gymraeg ar gyfer 18-19.

Rhaglen Llwyddiant Academaidd Cymraeg

- 17 -18: Cynorthwyo rhwng 60 ac 80 o fyfyrwyr gyda'u sgiliau academaidd yn Gymraeg
- 18 -19: Cynyddu cymorth i rhwng 80 a 100 o fyfyrwyr.

Tystysgrif Gymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

- Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan o 33 yn 16-17 i 50 yn 18-19.
- Cynyddu cyfradd llwyddiant y myfyrwyr i 90% gyda 60% yn ennill Anrhydedd.
- Cynnydd yn y nifer sy'n cyflawni eu gradd ymhlith y corff o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg.
- Cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n gwneud cais am ofal bugeiliol yn Gymraeg.

Canolfan Llwyddiant Academaidd - cynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu sgiliau astudio academaidd.

- Cymorth pontio gwell drwy gyrsiau ar-lein: *Sgiliau ar gyfer Dysgu, Sgiliau ar gyfer Byw - 3 chwrs ar-lein sy'n cynorthwyo pontio i AU.*
- Gweithdai ychwanegol mewn grwpiau bychain i fyfyrwyr â gwahaniaethau dysgu penodol (SpLDs).
- Gweithdai Llwyddiant mewn Mathemateg ac Ystadegau - gwasanaeth galw heibio ar gyfer cwestiynau cyffredin a gweithdai Ystadegau.

Darperir gan: Canolfan ar gyfer Llwyddiant Academaidd, Gwasanaethau Myfyrwyr

Rhesymeg: Cyrsiau pontio ar-lein sydd wedi eu bwriadu i gynorthwyo myfyrwyr o bob cefndir i ymaddasu i'w profiad academaidd newydd wrth iddynt fynd i mewn i AU. Mae'r cyrsiau'n rhyngweithiol ac yn rhoi gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau hawdd eu deall i gefnogi cynwysoldeb.

- Mae 50% o'r myfyrwyr sy'n gymwys i dderbyn cymorth un i un, arbenigol (drwy gyllid Lwfans Myfyrwyr Anabl) yn manteisio ar y cymorth ac felly cynigir gweithdai mewn grwpiau bychain. Mae trafodaethau gyda sefydliadau eraill yn awgrymu y gall

ychwanegu gweithdai gynyddu'r nifer fydd yn manteisio. Mae'n gymorth i leihau'r teimladau o unigrwydd ymhlith myfyrwyr ag anghenion dysgu. Mae'n cefnogi Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r newidiadau i Lwfansau Myfyrwyr Anabl.

- Mae gwerthusiad o sesiynau un i un Llwyddiant mewn Mathemateg ac Ystadegau yn dangos patrwm o gwestiynau cyffredin; ychwanegir gweithdai i fynd i'r afael â'r rhain. Byddant yn gymorth i fyfyrwyr (heb gefndir mewn mathemateg) i adeiladu hyder a dysgu sgiliau sy'n gymorth i symud ymlaen a pharhau.
- Ymroi i wella profiad y myfyriwr yn Abertawe.
- Sicrhau bod y gwasanaeth o fewn cyrraedd ac yn hyblyg.

Grŵp Myfyrwyr: Yr holl fyfyrwyr, ond mae'r cyrsiau yn arbennig o berthnasol i grwpiau a dangynrychiolir, e.e. myfyrwyr aeddfed, myfyrwyr o gefndiroedd cyfranogaeth isel, myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Targedau:

- Cyrsiau cymorth pontio yn seiliedig mewn 4 coleg academaidd
- Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n manteisio ar gyrsiau pontio o 25% i 4,500
- Darparu 2 weithdy ar gyfer myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn 2018-19
- Lleiafswm o 6 gweithdy Mathemateg/Ystadegau y tymor
- Mathemateg/Ystadegau - 70% o'r myfyrwyr sy'n mynychu yn sylwi ar fwy o hyder yn y pwnc

Dilyniant: sicrhau bod y myfyrwyr yn cael y **gefnogaeth academaidd a bugeiliol** i symud ymlaen o lefel i lefel.

- **Dadansoddi data dilyniant** i nodi patrymau a thueddiadau er mwyn sicrhau nad yw myfyrwyr â nodweddion neilltuol yn perfformio'n waelach na gweddill y garfan o ganlyniad i'r nodweddion hynny.
- **Canolbwyntio ar newidiadau i wella cyrhaeddiad** rhai grwpiau BAME neilltuol a dynion gwyn o'r dosbarth gweithiol.
- Mae'r swm a'r math o asesiad dan ystyriaeth yn 2016-17 gyda golwg ar sicrhau bod yr asesiad ar gyfer rhaglen yn briodol yn nhermau swm, yn gynhwysol o ran dyluniad ac yn ddilys cyn belled ag sy'n ymarferol ar gyfer y pwnc.
- Bydd **Gwasanaeth Lles Pwrpasol** (y tu allan i'r Gwasanaethau Lles, Anabledd ac Arian presennol) yn goruchwylio hyfforddiant a safoni darpariaeth y gwasanaeth lles ar draws y Brifysgol. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn cynnwys gwelliant i'n gallu i ymateb i achos 'y tu allan i oriau'/critigol. Gall hyn fod yn arbennig o effeithiol i gynorthwyo myfyrwyr nad oes ganddynt deulu sefydlog neu effeithiol neu fathau eraill o gefnogaeth allanol.
- **Ar gyfer oedolion sy'n ddysgwyr rhan-amser yng Ngholeg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, mae yna Swyddog Sgiliau Astudio a Chadw pwrpasol** a bydd aelodau o'r tîm datblygu cymunedol yn gweithredu fel cyd-drefnwyr lleoliadau a thiwtoriaid personol ar gyfer rhaglenni yn y gymuned a rhaglenni seiliedig ar y campws. Darperir cymorth gyda Sgiliau Astudio ac Ysgrifennu Academaidd hefyd ar gyfer myfyrwyr aeddfed rhan-amser ar sail un i un a grwpiau.

Darperir gan: Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS), Gwasanaethau a Systemau Gwybodaeth, Ansawdd Gwasanaethau Academaidd a Choleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau.

Rhesymeg: Mae myfyrwyr â rhai nodweddion ac amgylchiadau arbennig yn gwneud llai o gynnydd na gweddill y garfan. Mae angen deall yn well y patrymau a'r nodweddion / amgylchiadau arwyddocaol o fewn poblogaeth amrywiol myfyrwyr Prifysgol Abertawe. Bydd y ddealltwriaeth well hon yn ei gwneud yn bosibl cymryd camau i leihau'r gwahaniaethau mewn dilyniant fel bod yr holl fyfyrwyr yn cael cyfle cyfartal a darpariaeth gynhwysol.

Grŵp Myfyrwyr: Yr holl fyfyrwyr, ond gyda phwyslais penodol ar gyrhaeddiad unigolion Du/Asiaidd/Ethnig lleiafrifol (BAME) a dynion gwyn o'r dosbarth gweithiol.

CADW:

Cadw: cynorthwyo myfyrwyr i barhau i astudio a chwblhau eu rhaglenni astudio

- Bwrsarïau cysylltiedig ag incwm ar gyfer myfyrwyr o gartrefi incwm isel.
- Yn 2017-18 bydd y **fframwaith academaidd a bugeiliol** yn dechrau cael ei weithredu er mwyn darparu cefnogaeth gynhwysol i'r holl fyfyrwyr. Caiff y fframwaith ei sefydlu a'i werthuso dros nifer o flynyddoedd. Mae 3 prif gydran i'r fframwaith: yn gyntaf, Rhwydwaith Bywyd Myfyriwr ar gyfer cymorth lles i fyfyrwyr sy'n cael ei ddarparu mewn partneriaeth gan staff gwasanaethau proffesiynol cymwysedig yn y Colegau Academaidd; gwasanaeth lles newydd gan Wasanaethau Myfyrwyr; a'r MyUniHubs ar gampws y Parc a'r Bae. Yn ail, bydd tiwtora personol yn cael ei ailgyfeirio at fentora academaidd gan staff academaidd a chaiff myfyrwyr eu cynorthwyo i gynllunio eu datblygiad personol eu hunain.
- **Bydd y dadansoddiad o ddysgu yn parhau i gael ei ddatblygu** er mwyn gwella'r data sydd ar gael ynghylch ymgysylltiad y myfyrwyr â'u dysgu a'r addysgu, ar gyfer y staff a'r myfyrwyr. Yn 2016-17 canolbwyntiwyd ar weithredu system fonitro presenoldeb drwy ddefnyddio darllenydd cerdyn yn yr holl fannau addysgu ar gampws y Bae a champws y Parc. Mae hyn wedi ei gwneud yn bosibl defnyddio data presenoldeb ar gyfer cymorth bugeiliol drwy ganfod y myfyrwyr hynny sy'n ymgysylltu'n wael â'r addysgu a amserlennwyd. Mae ymgysylltiad effeithiol y myfyriwr yn ganolog i brofiad y myfyriwr. Drwy gynnig cymorth unigol yn gynnar ar gyfer problemau sy'n cael effaith negyddol ar ymgysylltiad, y bwriad yw gwella dysgu'r myfyrwyr. Yn 2017-18 bydd y pwyslais ar sicrhau bod data asesu ar gael i fyfyrwyr a staff mewn ffordd amserol a hygyrch. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer 2018-19 eto i gael eu penderfynu.
- **Gwell cymorth i fyfyrwyr ag anableddau**, cyflyrau iechyd meddwl a chyflyrau meddygol eraill gan gynnwys adnoddau a rhwydwaith cymuned ymarfer i staff, hyfforddiant staff, a gwell arweiniad i fyfyrwyr. Mae'r maes gwaith hwn yn cynnwys Academi Cyflogadwyedd Abertawe a thîm lleoliadau y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol.
- Mae'r **Gwasanaeth Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth** (ASC), sy'n cynorthwyo myfyrwyr â chyflyrau ASC neu syndrom Asperger, wedi gweld cynnydd o 100% yn nifer y myfyrwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn 2016. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig pecyn cynefino ar gyfer myfyrwyr i'w paratoi ar gyfer bywyd Prifysgol.
- Mae'r **Gwasanaeth Lles** yn gweithio ar y cyd ag Academi Iechyd a Lles Prifysgol Abertawe i ddarparu Rhaglen **ACTivate Your Life ar gyfer holl fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf** fel rhan o raglen sefydlu newydd mewn colegau academaidd i adeiladu cryfder myfyrwyr. Byddwn hefyd yn gweithio gyda DrugAid Abertawe i sefydlu cymorth i fyfyrwyr, gan gynnwys sesiynau galw heibio a hyfforddiant i staff.

• Gan ddechrau yn 2016-17, mae Colegau yn gwerthuso **eu darpariaeth sefydlu a phontio ar gyfer myfyrwyr** ac yn cael eu hannog i wella'u darpariaeth mewn partneriaeth gyda myfyrwyr, drwy offer a gweithdai. Bydd y gwaith hwn yn parhau dros nifer o flynyddoedd. • Mae pob Coleg academaidd yn cael ei gynorthwyo i ddarparu **mentora cymheiriaid gan fyfyrwyr** i fyfyrwyr gan ddefnyddio'r pecyn offer ar-lein a ddatblygwyd gan SAILS. • Yn flynyddol, mewn cydweithrediad ag **Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe**, mae SAILS yn cynnig grantiau bychain hyd at gyfanswm o £3,000 i staff er mwyn gwella'u hadnoddau, arferion a phrosesau dysgu, addysgu, asesu a chynwysoldeb er budd i'r myfyrwyr. • **Ar gyfer myfyrwyr aeddfed rhan-amser yng Ngholeg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, mae yna Swyddog Sgiliau Astudio a Chadw pwrpasol** fydd yn cynnig cymorth drwy gyflwyno myfyrwyr i ofynion eu cynllun astudio a dod o hyd i ffyrdd o'u goresgyn. Darperir hyn i fyfyrwyr wyneb yn wyneb a hefyd drwy gyfrwng Llawlyfr y STAR (Awgrymiadau Astudio i Sicrhau Canlyniadau). At hynny, bydd aelodau o'r tîm datblygu cymunedol yn gweithredu fel cyd-drefnwyr lleoliadau a thiwtoriaid personol ar gyfer rhaglenni yn y gymuned a rhaglenni seiliedig ar y campws.
Darperir gan: Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS), Gwasanaethau Myfyrwyr, Colegau Academaidd, Gwasanaethau a Systemau Gwybodaeth, Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau.
Rhesymeg: Mae addysgu, dysgu a chymorth cynhwysol i fyfyrwyr yn flaenoriaeth strategol i Brifysgol Abertawe er mwyn sicrhau bod pob myfyriwr, ar ôl ymrwymo i astudio, yn cael ei alluogi i gwblhau'r cymhwyster y mae wedi ei ddewis yn llwyddiannus.
Grŵp Myfyrwyr: Yr holl fyfyrwyr gan gynnwys myfyrwyr o deuluoedd incwm isel, ag anableddau (corfforol a dysgu), myfyrwyr aeddfed.
Targedau: Gwelwch y targedau ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir yn Atodiad Aii yn ymwneud â diffyg parhau (cadw).

5) Gwella profiad y myfyrwyr, sy'n dod o grwpiau a dangynrychiolir, o addysg uwch, gan gynnwys gweithgareddau i hybu profiad rhyngwladol;

Gwobr Academi Hywel Teifi - Gwobr sy'n cydnabod y gweithgareddau/cyfraniad allgyrsiol a wneir gan fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg i gymuned y Brifysgol, y gymuned leol ac ar lwyfan cenedlaethol/rhyngwladol drwy gyfrwng y Gymraeg. **Ieithoedd i Bawb** - Cyfle i ddysgu / gwella sgiliau mewn iaith newydd, gan gynnwys Cymraeg, fel rhan o gynllun gradd y myfyriwr.
Darperir gan: Academi Hywel Teifi
Rhesymeg: Annog myfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg i fanteisio ar y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg sydd ar gael er mwyn gwella eu gobaith o lwyddo gyda'u hastudiaethau a chyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol. Ymroi i wella profiad y myfyriwr yn Abertawe a chynyddu ymgysylltiad myfyrwyr â'r gymuned ehangach ac agor llwybrau gyrfa posibl.

Tynnu sylw cyflogwyr posibl at ymroddiad, gallu a brwdfrydedd myfyrwyr unigol wrth iddynt gystadlu am waith.
Grŵp Myfyrwyr: Myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg
Targedau: Cynnydd yn y niferoedd sy'n astudio 5+ credyd (o 299 yn 15-16 i 430) neu 40+ o gredydau (o 102 yn 15-16 i 150) yn Gymraeg ar gyfer 18-19. **Targedau Gwobr Academi Hywel Teifi:** Yn 17-18, 5 o ymgeiswyr yn cwblhau, yn 18-19, 10 o ymgeiswyr yn cwblhau. **Cyrsiau Cymraeg Ieithoedd i Bawb** - Cynnydd yn nifer y myfyrwyr o 14 yn 16-17 i 18 yn 17-18 a 22 yn 18-19.

Mae'r **Tîm Mynd yn Fyd-eang** yn y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol yn gyfrifol am gychwyn, datblygu a hybu amrywiaeth eang o **gyfleoedd rhyngwladol i fyfyrwyr** (astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor) sydd ar gael i'r holl fyfyrwyr. Mae'r tîm Mynd yn Fyd-eang yn ymrwymedig i sicrhau bod myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn elwa o brofiad rhyngwladol. Fel y cyfryw rydym yn: • Cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd, o raglenni 2 wythnos o hyd yn yr haf a rhaglenni byrion i leoliadau astudio dramor am flwyddyn lawn mewn amrywiaeth o wledydd, sy'n apelio at ystod eang o fyfyrwyr. • Darparu bwrsarïau i'r holl fyfyrwyr sy'n cymryd rhan. • Adolygu a cheisio cynyddu'r bwrsari Ehangu Cyfranogaeth ychwanegol i fyfyrwyr o gefndiroedd incwm isel o £250 i oddeutu £500 i annog myfyrwyr i fanteisio arno. • Gweithio'n agos gyda'r swyddfa anabledd ym Mhrifysgol Abertawe ac yn y prifysgolion sy'n bartneriaid i sicrhau bod cefnogaeth ychwanegol addas yn cael ei rhoi i fyfyrwyr anabl sy'n cyfranogi mewn Cyfleoedd Byd-eang.
Darperir gan: Tîm Mynd yn Fyd-eang, y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol
Rhesymeg: Mae cyfranogi yn un neu ragor o'r cyfleoedd Mynd yn Fyd-eang yn cael effaith sylweddol ar gyflogadwyedd myfyrwyr yn ogystal ag ychwanegu at ansawdd eu profiad fel myfyrwyr. Dengys data fod gan 51% o'r myfyrwyr, sy'n cymryd cyfle symudedd, o leiaf un nodwedd a dangynrychiolir sydd wedi ei chynnwys yn y cynllun hwn.
Grŵp Myfyrwyr: Yr holl fyfyrwyr, gan gynnwys myfyrwyr o deuluoedd incwm isel a myfyrwyr ag anableddau.
Targedau: • Bydd y tîm Mynd yn Fyd-eang yn sefydlu ystadegau llinell sylfaen ar gyfer cyfranogaeth gan fyfyrwyr o'r holl grwpiau a dangynrychiolir a byddant yn parhau i fonitro cyfanswm nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan gyda'r nod o gynnal cyfartaledd yn unol â'r gyfran gyffredinol o fyfyrwyr y brifysgol sy'n dod o grwpiau a dangynrychiolir. Y nifer cyfartalog rhwng 2015-16 a 2016-17 oedd bod gan 51% o fyfyrwyr symudol o leiaf un nodwedd ehangu mynediad; mae hyn yn cymharu ag ystadegyn o 55% ar gyfer grŵp blwyddyn gyntaf gradd gyntaf y brifysgol.

- Darparu ychwanegiad mwy at fwrsari Ehangu Mynediad (cynyddir o £250 yn 2016-17 i £500 yn 2018-19 gyda'r nod o gynyddu nifer y myfyrwyr o gefndiroedd incwm isel o 72 (yn cynrychioli 17% o'r myfyrwyr symudol yn 15-16).

6) Darparu gwybodaeth effeithiol i fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir cyn ac yn ystod eu cyrsiau;

Mae'r Brifysgol yn sicrhau ei bod yn darparu **gwybodaeth effeithiol i'r holl fyfyrwyr** gan gynnwys y rheiny sy'n dod o grwpiau a dangynrychiolir drwy amrywiaeth o wasanaethau sy'n targedu myfyrwyr cyn ac yn ystod eu cyrsiau:

- Diweddaru Gwybodaeth am Fynediad a Chyrsiau ar-lein;
- Llyfrynnau Rhaglenni a phrosbectws (gan gynnwys y cymorth ariannol sydd ar gael yn y Brifysgol);
- Mewn cynulliadau a ffeiriau AU UCAS;
- Cyswllt uniongyrchol â myfyrwyr sy'n gwneud ymholiadau;
- Diwrnodiau agored ac ymweliadau yn dilyn ceisiadau;
- Anerchiadau gan Swyddfa Recriwtio'r Myfyrwyr mewn ysgolion ar gyfer blynyddoedd 12 a 13 ledled de Cymru ac yn cynnwys ardaloedd o amddifadedd gwledig a threfol;
- Prosbectws israddedig, tudalennau gwe allweddol a chyhoeddiadau eraill Cymraeg, gan gynnwys "Pam astudio yn Gymraeg?", *Arwain* (taflen ddwywaith y flwyddyn gan y Brifysgol ynghylch gweithgareddau a storïau Prifysgol Abertawe yn Gymraeg). Mae'r Brifysgol hefyd yn gweithio mewn cydweithrediad â'r Coleg Cymraeg ar amrywiaeth eang o weithgareddau recriwtio i ddenu myfyrwyr i'r ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg, gan gynnwys drwy ddigwyddiadau cenedlaethol allweddol megis y GwyddonLe yn Eisteddfod yr Urdd ac amrywiaeth o weithgareddau yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn;
- Mae Gwasanaethau Myfyrwyr yn rhoi gwybodaeth am drefniadau ac arian/cyllid ar lein ac yn eu sgyrsiau mewn diwrnodiau agored yn egluro pa gymorth sydd ar gael i fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir neu gefndiroedd dan anfantais;
- Pecynnau cofrestru sy'n rhoi manylion llawn am gyrsiau, gan gynnwys rhaglenni ac amserlenni;
- Mae gwybodaeth sy'n egluro'n union yr hyn sydd wedi ei gynnwys yn y ffioedd a godir yn unol â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gael ar lein fel y gall myfyrwyr weld cyfanswm y ffioedd cronedig y disgwylir iddynt eu talu ac mae'r wybodaeth hefyd yn y wybodaeth gysylltiedig â'r rhaglen a roddir i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr sydd newydd gofrestru. Os bydd yna daliadau ychwanegol ar gyfer costau cysylltiedig â'r cwrs megis teithiau maes, yna bydd y rhain hefyd ar gael er mwyn deall cyfanswm y costau a ddisgwylir;
- Darperir sesiynau sgwrsio ar-lein cyn cyrraedd gan Money@CampusLife. Mae'r rhain yn ei gwneud yn bosibl i fyfyrwyr gael mynediad at gyngor arbenigol, gwybodaeth a chymorth ynghylch popeth cysylltiedig ag arian gyda'r bwriad o hybu mynediad cyfartal drwy ddarparu'r wybodaeth a'r cyngor perthnasol;

- Sicrhau bod myfyrwyr llawn amser breindal yn derbyn yr un mynediad at wybodaeth, cefnogaeth ac ymgysylltiad a hynny ar yr un lefel. Mae'r Brifysgol yn cytuno contractau gyda'r holl ddarparwyr, yn amlinellu'r cyfrifoldeb i roi'r wybodaeth angenrheidiol i fyfyrwyr ynghylch cofrestru, gwneud cais, lefelau ffioedd a'r cymorth sydd ar gael iddynt (gan gynnwys pecynnau cymorth ariannol), yn unol â disgwyliadau'r Brifysgol ar gyfer sicrhau ansawdd profiad dysgu'r myfyriwr;
- Sesiynau galw heibio Money@CampusLife sy'n caniatáu i fyfyrwyr gael cyngor ariannol arbenigol, gan hybu cadw drwy roi cyngor a chymorth ymarferol;
- Sgyrsiau Gallu Ariannol a Digwyddiadau Ymgysylltu i gynorthwyo myfyrwyr i baratoi, cynllunio a chadw eu harian tra byddant yn astudio;
- Mae Fforwm Myfyrwyr Cangen Prifysgol Abertawe o'r Coleg Cymraeg yn rhoi llais i fyfyrwyr Cymraeg ac mae'n gyfrwng i rannu gwybodaeth rhwng myfyrwyr, y Brifysgol a'r Coleg Cymraeg;
- Gall myfyrwyr cyfrwng Cymraeg wneud yn fawr o'r cyfle i gael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg pan fo aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael;
- Cysylltir â myfyrwyr drwy lythyr ac e-bost i sôn am unrhyw newidiadau a all ddigwydd dros gyfnod y cwrs. Gellir gosod gwybodaeth hefyd ar y wefan ac ar borth ar-lein neilltuol y Brifysgol. Byddwn yn dilyn arweiniad Llywodraeth Cymru ynghylch costau ychwanegol annisgwyl i fyfyrwyr;
- Gall yr holl fyfyrwyr gael gwybodaeth lawn am eu cwrs ar-lein drwy Ganllaw Academaidd y Myfyrwyr;
- Mae gan y Brifysgol hefyd MyUniHub (siop un stop ar gyfer ymholiadau myfyrwyr) ar bob campws lle y gall myfyrwyr alw i mewn a gofyn cwestiynau a gofyn am gyngor gan gynnwys gwybodaeth gyffredinol sydd ar gael ar-lein ar y wefan MyUni.

Rhesymeg: Rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r holl fyfyrwyr, fel sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau, er mwyn iddynt fod yn gwybod a deall sut y gallant fynd i'r brifysgol, cael eu hariannu a'u cynorthwyo i astudio.

Grŵp Myfyrwyr: Yr holl fyfyrwyr, gan gynnwys y rheiny o grwpiau a dangynrychiolir.

8) Cynorthwyo myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i fynd ymlaen i gyflogaeth neu astudio pellach

DEILLIANNAU:

Mae gan y Brifysgol amrywiaeth o wasanaethau sy'n cynorthwyo myfyrwyr i fynd ymlaen i waith ac astudio pellach, yn enwedig Academi Cyflogadwyedd Abertawe, y Tîm Mynd yn Fyd-eang a'r Gwasanaeth Gyrfaoedd. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol wedi targedu cymorth i grwpiau a dangynrychiolir yn arbennig drwy'r mentrau canlynol:

- **Hybu Lleoliadau Gwaith Rhyngwladol** - creu SPINau Rhyngwladol (interniaethau sy'n cael eu talu gan Abertawe) sy'n cael eu rhedeg gan Academi Cyflogadwyedd Abertawe a'r Swyddfa Datblygu Rhyngwladol ac yn cynnig ychwanegiad o £250 i **fyfyrwyr o deuluoedd incwm isel** at y bwrsari symudedd.
- Bydd rhai sy'n **gadael gofal** yn cael cynnig £1,000 dros gyfnod eu cwrs astudiaeth bellach (e.e. cwrs Meistr llawn amser neu ran-amser gan gynnwys PhD).

- **Academi Cyflogadwyedd Abertawe** sy'n goruchwylio darpariaeth Rhaglen Go Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith – bwriadwyd hon yn benodol i gynorthwyo myfyrwyr sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol ar ffordd cyflogadwyedd lefel gradd, drwy ddarparu ymyriadau pwrpasol. Mae hyn yn ategu datblygiad Academi Cyflogadwyedd Abertawe (ACA) wrth inni geisio gwella ymhellach ein dull o sicrhau 'deilliannau cadarnhaol i bawb' yng ngoleuni Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF).
- Rhoddir mynediad i **Fyfyrwyr sy'n Gadael Gofal a Myfyrwyr sydd wedi Ymddieithrio** at gyngor gyrfaoedd fel mater o flaenoriaeth, yn ffurf cyflwyniad a hwyluso cyfarfod os bydd angen.
- O ran darpar fyfyrwyr aeddfed **a myfyrwyr aeddfed rhan-amser** sy'n parhau eu haddysg yng Ngholeg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, mae yna weithiwr arweiniad yn cynnig cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd ac astudiaeth bellach, naill ai ar y campws neu yn y gymuned.
    - Anogir y myfyrwyr hyn hefyd i fynychu Gweithdai Cyflogadwyedd sy'n ymdrin ag ystod o themâu megis ysgrifennu CV, llwybrau gyrfa graddedigion, nodi sgiliau trosglwyddadwy, gwerthu sgiliau i gyflogwyr graddedigion, dewisiadau astudio ôl-raddedig, rhwydwaith Alumni Prifysgol Abertawe, cymdeithasau a chlybiau, cyfleoedd i wirfoddoli a phrofiad gwaith. Cynhelir y sesiynau hyn yn flynyddol yn Llyfrgell y Glowyr yn Ne Cymru ac mewn lleoliadau cymunedol.
    - Datblygu Modiwl Busnes ac Entrepreneuriaeth i gael ei ddarparu ar gyfer myfyrwyr addysg barhaus, rhan-amser yn 2018-19.
    - Modiwlau Datblygiad Proffesiynol Parhaus wedi eu hachredu, mewn cydweithrediad â Choleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, ar gyfer yr holl fyfyrwyr Israddedig ac Ôl-radd ym mhynciau Iaith, TG a Chynghori.
- Mae'r **Swyddfa Anabledd** wedi datblygu nifer o fentrau i gynorthwyo myfyrwyr anabl.
    - Mae'r swyddfa wedi cynhyrchu taflen arweiniad ynghylch datgelu anabledd i ddarpar gyflogwyr a sut y dylai myfyrwyr ymagweddu at hyn.
    - Mae hefyd wedi sefydlu grŵp ar draws y Brifysgol i wella'r cymorth presennol i ddysgwyr ag anableddau sy'n dymuno mynd ar leoliad gwaith neu astudio/gweithio dramor. Mae hyn hefyd yn cynnwys cynllun peilot gyda'r Ysgol Reolaeth i gynnwys gwybodaeth yn Llawlyfr Lleoliadau Myfyrwyr Israddedig ynghylch cefnogi myfyrwyr tra byddant yn derbyn cyfleoedd lleoliad gan eu cynghori ynghylch yr addasiadau y gellir eu gwneud ac ynghylch manteision datgelu.
- I **Fyfyrwyr Cyfrwng Cymraeg**, darparu modiwl Profiad Gwaith Cymraeg 20 credyd; cynyddu darpariaeth yn Gymraeg ar gynlluniau gradd sydd ag achrediad diwydiant /sector, e.e. nyrsio, bydwreigiaeth, meddygaeth, y cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus. Datblygu cynllun gradd cyfrwng Cymraeg peilot fydd yn cynnwys blwyddyn mewn cyfleoedd diwydiant a datblygu darpariaeth Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar draws yr amrywiol bynciau a ddarperir yn Gymraeg.

Darperir gan: Academi Cyflogadwyedd Abertawe, Academi Hywel Teifi, Swyddfa Anabledd, Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau a Gwasanaethau Myfyrwyr.

Rhesymeg: Er bod y Brifysgol yn darparu gweithgareddau gyrfaoedd a chyflogadwyedd cynhwysol i'r holl fyfyrwyr, efallai y bydd rhai grwpiau a dangynrychiolir yn profi rhwystrau

ychwanegol wrth drosglwyddo i mewn i gyflogaeth neu astudiaeth bellach. Mae'r mentrau a ddisgrifir uchod yn anelu at leihau'r rhwystrau hyn a chynnig cyfleoedd datblygu er mwyn gwella dewisiadau'r unigolyn yn y dyfodol.

Grwpiau Myfyrwyr: Teuluoedd ar incwm isel, rhai sy'n gadael gofal, myfyrwyr wedi ymddieithrio, myfyrwyr aeddfed rhan-amser, myfyrwyr anabl, myfyrwyr cyfrwng Cymraeg

Targedau:

Targedau Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch (DLHE):

Graddedigion 2014-15 (adroddwyd 2016)

- Cyflogaeth ac Astudiaeth Bellach = 93.2%
- Cyflogaeth ar lefel gradd = 80.6%

Graddedigion 2017-18 (adroddir amdanynt yn 2020 dan y DLHE newydd)

- Cyflogaeth ac Astudiaeth Bellach = 96%
- Cyflogaeth ar lefel gradd = 85%

Cymorth i'r Rhai sy'n Gadael Gofal ar gyfer astudiaeth bellach: Yn 2016-17, fe aeth 7 o fyfyrwyr, a ofynnodd am gymorth ar lefel israddedig, ymlaen i astudiaeth ôl-raddedig ym Mhrifysgol Abertawe (5 x gradd Meistr a 2 x PHD). Rydym wedi ymatal rhag gosod targed rhifiadol penodol ar gyfer 2018-19 gan y dylanwadir ar ffigurau dilyniant gan ddewisiadau astudio personol ac amgylchiadau penodol.
Modiwl Profiad Gwaith Cyfrwng Cymraeg - Denu rhwng 10 a 15 o fyfyrwyr y flwyddyn

Darpariaeth Gymraeg ar raddau galwedigaethol - y nod yw cynnig 40 credyd o leiaf y flwyddyn ar bob cynllun

9) mesurau eraill i gefnogi grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch, megis gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau ffioedd a mynediad (nodwch y mesurau hyn os gwelwch yn dda).

Yn unol â'r amcanion corfforaethol a nodwyd yng **Nghynllun Cydraddoldeb Strategol (2016-20)** y Brifysgol, mae'r gweithgareddau canlynol wedi eu cynllunio ar gyfer 2018-19.

Hil:

- Mis Hanes Du yn ystod mis Hydref- cynyddu ymwybyddiaeth gan gynnwys y staff, myfyrwyr ac aelodau o'r gymuned gan edrych ar yr heriau allweddol y mae'r sefydliad yn eu hwynebu o ran cydraddoldeb hiliol.
- Sesiynau codi ymwybyddiaeth i nodi'r Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Gwahaniaethau ar sail Hil yn ystod mis Mawrth.

Crefydd:

- Digwyddiadau Coffáu'r Holocost ym mis Ionawr - cofio a chynorthwyo i sicrhau nad yw erchyllterau'r gorffennol yn cael eu hailadrodd.
- Ramadan - mae'r brifysgol yn cynorthwyo staff a myfyrwyr yn ystod Ramadan drwy ddarparu cyfleusterau mewn pebyll mawr a gomisiynir yn benodol.
- EID - Cyd-drefnir drwy bwyllgor Rheoli'r Mosg i ddathlu diwrnod olaf tymor gŵyl addoli y Dhul Hijjah.

- Y Darlun Mawr - Canolbwyntio ar Grefydd, Ffydd, Diwylliant a Chymuned yn ystod Chwefror/Mawrth.

Rhyw:

- Diwrnod Rhyngwladol y Merched - cynhelir dathliadau yn ystod mis Mawrth, gan gynnwys digwyddiadau sy'n cael eu rhedeg gan y brifysgol a cholegau mewnol. Wedi ei chynnwys yn hyn mae Cyfres y Merched sy'n Ysbrydoli, yn proffilio merched â nodweddion gwarchodedig lluosog ar wefan y brifysgol yn ystod mis Mawrth.
- Diwrnod Ada Lovelace – mis Hydref, ar gyfer rhannu meddyliau ar yr agenda cydraddoldeb a thrafod sut y mae modd cynyddu nifer y merched mewn safleoedd o bwys yn y brifysgol.
- Mae'r brifysgol ym ymrwymedig iawn i wella cynrychiolaeth y rhywiau o fewn pob un o'n saith coleg. Mae'r Brifysgol wedi derbyn y wobr efydd sefydliadol, a'r Ysgol Feddygaeth a Choleg Astudiaethau Dynol ac Iechyd ill dau wedi derbyn y gwobrau Arian. Gwobrau efydd sydd gan Wyddoniaeth a Pheirianneg hefyd. Mae'r tri choleg arall i gyd yn gweithio tuag at gyflwyno'u ceisiadau am eu gwobrau eu hunain.

LGBT+:

- Pride Cymru – mae'r Brifysgol yn cynnal stondin bob mis Awst
- Bi-Fest Cymru – cynrychiolir i gynorthwyo i godi ymwybyddiaeth
- Mis Hanes LGBT, yn cynnwys amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau mewnol - Chwefror
- IDAHOBIT (Diwrnod rhyngwladol yn erbyn homoffobia, trawsffobia a biffobia) – cynhelir yn ystod mis Mai fel digwyddiad cydlyniad ar gyfer myfyrwyr a staff LGBT+.
- Diwrnod Amlygrwydd Bi - Cynhelir gan Rwydwaith Staff LGBT+ yn ystod mis Medi i groesawu blwyddyn academaidd newydd.
- Swansea Sparkle – Cynnal stondin yn y digwyddiad Trawsrywiol mwyaf yng Nghymru, bob Tachwedd.

Anabledd:

- Mae Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r rheiny sy'n dioddef rhagfarn oherwydd eu hunaniaeth, e.e. anabledd, hunaniaeth rhyw, hil, ethnigrwydd, crefydd/ffydd/cred/ neu duedd rywiol. Rhedir hon mewn cydweithrediad ag Undeb Myfyrwyr Abertawe, bob mis Hydref.

Darperir gan: y Tîm Cydraddoldeb, Undeb y Myfyrwyr

Rhesymeg: Codi ymwybyddiaeth, hybu cydraddoldeb a sicrhau bod yr holl staff a myfyrwyr yn cael eu trin yn deg ag urddas a pharch, gan ganiatáu iddynt fod y gorau y gallant fod mewn amgylchedd gofalgar a diogel.

Targedau: Mesurir yr effaith drwy holiaduron adborth (gan gynnwys atebion ansoddol) rhifau presenoldeb (mewn cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol, os yn berthnasol).

Hybu mesurau addysg uwch er mwyn sicrhau:

1) Ymgysylltu'n fwy effeithiol â chyrff preifat, cyhoeddus neu wirfoddol a chymunedau yng Nghymru;

Gweithgareddau cydweithredu rhanbarthol strategol:

- Cefnogi Memorandwm Dealltwriaeth gyda Dinas a Sir Abertawe, gan gynnwys partneriaeth gyda Dinas a Sir Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Choleg Gŵyr Abertawe i ddatblygu ymhellach **Dinas Dysg Abertawe** o fewn **Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) o Ddinasoedd Dysg**.
- **Tri chynnig InterReg** gydag Amgueddfa Glan y Dŵr a Dinas a Sir Abertawe ar gyfer llwybrau treftadaeth, dinasoedd y môr ac ecodwristiaeth.
- Datblygu Partneriaeth Addysg Athrawon Cychwynnol **Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe** (YAPA) gydag ysgolion yng Nghastell-Nedd Port Talbot, Abertawe a Sir Benfro a chonsortia rhanbarthol.
- Cefnogi gweithrediad **Rhaglen Sgiliau y Fargen Ddinesig** fel cynrychiolydd AU ar y Bwrdd Partneriaeth Dysgu Sgiliau Rhanbarthol a CCAUC fydd yn datblygu llwybrau sgiliau i gyfrannu i adfywiad economaidd.
- Cefnogi **menter y Banc Doniau o fewn prosiect ARCH**.
- **Prosiect Tŷ'r Gwrhyd -** Menter ar y cyd rhwng Prifysgol Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Castell-Nedd Port Talbot, a sefydlwyd gydag arian gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r iaith Gymraeg o ran mentrau addysgol a chymunedol i ymroi i atal dirywiad y Gymraeg yng nghymoedd Abertawe a Chastell-nedd. Mae Tŷ'r Gwrhyd yn gweithio gydag ysgolion, busnesau a mentrau seiliedig yn y gymuned i wneud gwahaniaeth yn lefel yr ymgysylltiad â'r iaith Gymraeg a chyfrannu i darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Sefydlu'r **Academi ar gyfer Datblygiad Proffesiynol** i gyd-drefnu a hybu darpariaeth addysg a hyfforddiant datblygu proffesiynol parhaus i fusnesau yng Nghymru ac yn genedlaethol. Alinio darpariaeth addysg a hyfforddiant DPP y Brifysgol â gofynion sgiliau'r rhanbarth yn y dyfodol.
- Aelodau gweithredol o **Bartneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol, y De-orllewin a Chanolbarth Cymru (PDSR).**
- Bydd **Partneriaeth Sgiliau Prifysgol a Choleg (CUSP)** yn parhau i gryfhau partneriaethau a chydweithrediadau gyda Cholegau AB rhanbarthol a gyda diwydiant.

Darperir gan: Cydweithrediad Rhanbarthol Strategol, Academi Hywel Teifi, Uned Partneriaeth Academaidd

Rhesymeg: Mae'r dull partneriaeth i ganolbwyntio ar gynaladwyedd, arloesi, sgiliau entrepreneuraidd a chynhwysiant drwy'r holl ddysgu yn ardal Bae Abertawe, gan godi safonau mewn addysg a chynyddu dilyniant i Brifysgol Abertawe. Cyfrannu hefyd i ddatblygiad yr economi ranbarthol drwy ddarparu hyfforddiant lefel uchel a cheisio mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau a ganfuwyd gan Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol - y De-orllewin a Chanolbarth Cymru. Bydd y gweithgareddau hyn hefyd yn gymorth i amrywio sylfaen y myfyrwyr a sefydlu seilwaith ledled y Brifysgol i ategu darparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus cynaliadwy ar ôl i gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop ddod i ben.

Targedau:

- Gwneud Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn rhan annatod o Ddysgu Entrepreneuriaeth drwy addysg gynradd, uwchradd, AB ac AU yn y rhanbarth.
- Cynnal Cyfarfod Rhanbarthol UNESCO 2017 (Ewrop a Gogledd America) a chynrychioli Abertawe yn Nhrydedd Cynhadledd Ryngwladol Dinasoedd Dysg.
- 3 Chynnig InterReg - canlyniadau 2017.
- Sefydlu Partneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe a gwneud cais am niferoedd TAR ym mis Rhagfyr 2017.
- Sicrhau bod cynrychiolaeth AU ar y Bwrdd PDSR, i CCAUC ac mewn ymateb i Brosiect Sgiliau y Fargen Ddinesig yn deg a diduedd, gan ganolbwyntio ar gyd-ddatblygu llwybrau sgiliau i ateb anghenion cyflogwyr rhanbarthol sydd â'r potensial i dyfu.
- Cefnogi'r Banc Doniau ac archwilio awydd cyflogwyr am fodel Banc Doniau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) ehangach.
- Cynyddu niferoedd defnyddwyr rheolaidd gwasanaethau a chyfranogwyr yn nigwyddiadau Tŷ'r Gwrhyd gan gynyddu ymgysylltiad disgyblion o 4 ysgol i 8; 5 grŵp / elusen / busnes i 10 a sicrhau cynulleidfaoedd rhwng 30 a 50 ym mhob digwyddiad diwylliannol/academaidd ar gyfer y gymuned. Cynyddu niferoedd dysgwyr Cymraeg o 70 i 120.
- Cynyddu nifer y cyrsiau DPP byrion o 15 i 30.
- Cynyddu nifer y dysgwyr proffesiynol cofrestredig i 200.
- Cyflwyno dau gwrs DPP drwy gyfrwng y Gymraeg mewn partneriaeth gydag Academi Hywel Teifi.

2) Buddsoddi mewn gwella ansawdd dysgu ac addysgu, gyda golwg ar ansawdd profiad y myfyriwr;

Gwelliannau yn Ansawdd Addysgu:

- Datblygu Addysgu ar draws sbectrwm y staff/coleg gan gynnwys cynhadledd Dysgu ac Addysgu, seminarau (gwella Addysgu) a rhaglen o weithdai (sgiliau newydd/technoleg).
- Dysgu a Gyfoethogir gan Dechnoleg Sefydliadol - cymorth a datblygiad.
- Cydnabod Athrawon – Llwybrau Achrediad yr Academi Addysg Uwch (AAU), llwybr ar gyfer yr holl athrawon, targed = 80% o'r holl staff addysgu, gradd 7 ac uwch erbyn 2020 (35% ar hyn o bryd, 50% erbyn 17-18, 65% yn 18-19).
- TAR - datblygiad addysgeg ar gyfer athrawon newydd.
- Agenda DPP newydd - Tystysgrif ôl-radd ar gael i bawb, arsylwi Drws Agored ar athrawon, datblygiad Technolegol.

Darperir gan: Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe

Rhesymeg:

- Ymdrech i wella addysgu i safon ardderchog.
- Ymroi i wella profiad y myfyriwr yn Abertawe.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb Addysgu ac Ymchwil yn ein llwybr tuag i fyny.
- Is na chyfartaledd y sector am gydnabyddiaeth athrawon.

Targedau:

- Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (NSS) Ansawdd Addysgu - 89% o fodlonrwydd (y chwartel uchaf) erbyn 18-19 (86% yn 2016)
- Targed Achrediad yr Academi Addysg Uwch (AAU) = 80% o'r holl staff addysgu, gradd 7 ac uwch erbyn 2020 (35% ar hyn o bryd, 50% erbyn 17-18, 65% yn 18-19).

Camu i Ragoriaeth (Rhaglen Wella Prifysgol a Myfyrwyr):

- **Cyd-greu (staff a myfyrwyr) darparu dysgu ffurfiannol yn ddigidol.** Mae hyn wedi ei fwriadu i alluogi myfyrwyr i adnabod y ffyrdd gwahanol y maent yn derbyn adborth a thrwy drafodaethau gyda'u mentor academaidd byddant yn gweithio allan sut y gellir defnyddio'r adborth ar gyfer y dyfodol (bwydo ymlaen).
- **Datblygu symposia israddedig adrannol i wella myfyrwyr fel ymchwilwyr mewn gweithgaredd ysgolheigaidd ac ysbrydoli cymheiriaid.** Mae'r ffocws yn y fan hon ar roi'r cyfle i fyfyrwyr gyflwyno'u hymchwil i'w cymheiriaid, ond mae hefyd yn rhoi'r cyfle i israddedigion yn eu hail flwyddyn nid yn unig i weld deilliannau prosiectau blwyddyn olaf ond hefyd deall prosesau ymchwil o safbwynt y myfyriwr. Bydd hyn yn gwella profiad y myfyriwr drwy roi mwy o hyder iddynt.
- **Creu rolau llysgenhadon dysgu i fyfyrwyr i hybu dysgu ar draws cyfnodau a chynwysoldeb.** Rhydd hyn rôl i fyfyrwyr fydd yn gysylltiedig â gwella profiad yr holl fyfyrwyr o addysgu a dysgu ar draws y Brifysgol.
- **Gwella a sefydlu cymdeithasau academaidd ymhellach.** Darparu cyfleoedd i'r holl fyfyrwyr fod yn rhan o gymdeithas academaidd a gwella'r ffordd y mae'r cymdeithasau'n gweithio, drwy weithio gyda'r myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr i rannu arfer gorau.
- **Datblygu'r diwylliant adborth i hybu 'cau'r cylch' ar lefelau amrywiol drwy 'Gyda'n Gilydd fe wnaethom Newid''.** Sicrhau bod myfyrwyr yn teimlo bod eu hadborth yn cael ei werthfawrogi ac yn derbyn ateb, sy'n hanfodol i adeiladu profiad y myfyriwr.
- **Cyfnewid Myfyrwyr** - caiff myfyrwyr y cyfle i fynd ar daith gyfnewid wythnos o hyd i Brifysgol arall i weld sut mae sefydliad arall yn rhedeg. Yn y ffordd hon, gall y myfyriwr weithredu fel cyfrwng newid, wrth ddod â syniadau yn ôl i wella profiad y myfyriwr. Cynhaliwyd peilot yn llwyddiannus yn 17/18 gyda myfyriwr o Brifysgol Abertawe yn ymweld â Phrifysgol Newcastle. http://www.raise-network.com/picnic

Darperir gan: Uned Gynllunio a Phrosiectau Strategol

Rhesymeg: Bydd y prosiect Camu i Ragoriaeth yn parhau i wella profiad y myfyriwr ym mhob grŵp ym Mhrifysgol Abertawe drwy weithio mewn partneriaeth gyda'r myfyrwyr. Mae'r ddwy thema eleni (Cyfranogiad Myfyrwyr mewn Dysgu a Grymuso Myfyrwyr ar gyfer Dysgu) yn anelu at wneud hyn drwy:

- Wella'r diwylliant digidol mewn dysgu ac addysgu ymhlith staff a myfyrwyr.
- Gwella a chynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithiadau myfyriwr-myfyriwr llwyddiannus ac ystyrlon.
- Adeiladu diwylliant a chymuned ymarfer ymhlith staff a myfyrwyr.
- Grymuso llais y myfyriwr a grymuso'r staff a'r myfyrwyr drwy ddiwylliant o gyd-greu.

Targedau:

- Gwella bodlonrwydd cyffredinol NSS i 92% erbyn 18-19 (90% yn 15-16)

- Canlyniadau gwell i fyfyrwyr. Cynyddu'r gyfran o fyfyrwyr sy'n cael gradd dosbarth cyntaf neu ail uchaf i 80% (y chwartel uchaf) erbyn 18-19.
- Cynyddu nifer y cymdeithasau academaidd - 44 ym mis Mai 2017 i 45-50 erbyn 2020.
- Adolygiad blynyddol cynrychiolwyr myfyrwyr.

3) Gweithgareddau sy'n cryfhau cyflogadwyedd graddedigion Cymru

Cyfleoedd Symudedd - Mae'r **Tîm Mynd yn Fyd-eang** yn y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol yn gyfrifol am gychwyn, datblygu a hybu amrywiaeth eang o gyfleoedd rhyngwladol i fyfyrwyr (astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor) sydd ar gael i'r holl fyfyrwyr.

Datblygiad athrawon yn cael ei gyd-drefnu gan Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT) - Cysylltu theori ac ymarfer drwy brofiad yn y gweithle, addysgu cymhwysol ac asesiad integredig. Hefyd ymestyn ystod yr asesiad i gynnwys asesiad dilys, yn gysylltiedig â chyflogadwyedd a pherfformiad yn y gweithle.

Academi Cyflogadwyedd Abertawe (ACA):
Gweithredu Map un dudalen, clir, 'Fy Nhaith Gyrfa', sy'n berthnasol i fyfyrwyr ar unrhyw lefel, yn unrhyw ddisgyblaeth. Mae'r map hwn yn sail i'r holl weithgaredd cyflogadwyedd ar draws y Brifysgol ac yn rhoi neges gyson a chlir i fyfyrwyr gan eu cynorthwyo i ymgysylltu â chyflogadwyedd. Mae'r mapiau yn galluogi myfyrwyr i weld eu cynnydd drwy'r camau ar y map ar eu cyflymder eu hunain, gydag arweiniad.
Mae'r map hefyd yn cynorthwyo staff ar draws y Brifysgol i hyrwyddo datblygiad sgiliau a phrofiadau'r myfyriwr.

Cyflwyno Gwobr ACA - mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe yn gweithio mewn partneriaeth gyda staff academaidd i ddarparu Gwobr Gyflogadwyedd Abertawe i fyfyrwyr israddedig ac ôl-radd. Mae'r Wobr yn cynorthwyo myfyrwyr i archwilio pwy ydynt ac ennill profiad a datblygu sgiliau i'w gwneud yn fwy parod wrth iddynt symud ymlaen tuag at gael gwaith ar lefel gradd. Bydd y Wobr hefyd yn ymddangos ar Adroddiad Cyflawniad Addysg Uwch y myfyriwr (HEAR).

Parth Cyflogaeth - Proses wedi ei brandio ar gyfer ymgysylltiad â chyflogwyr i hwyluso twf mewn lleoliadau i fyfyrwyr a graddedigion, swyddi i raddedigion a swyddi rhan-amser. Mae hefyd yn cynnig mecanwaith mwy dringadwy i hybu a darparu lleoliadau a ariennir yn fwy effeithiol ar gyfer myfyrwyr a graddedigion mewn sefydliadau yn y DU, yn enwedig sefydliadau yng Nghymru. Gall y cwmnïau sy'n cynnig lleoliadau amrywio o flwyddyn i flwyddyn ond mae amrywiaeth eang bob amser o ddiwydiannau a swyddi - o fentrau bychain a chanolig lleol ac elusennau i gorfforaethau rhyngwladol enfawr.

Adroddiad Cyflawniad Addysg Uwch - mae'n cofnodi cyflawniad myfyriwr mewn addysg uwch ac yn rhoi gwybodaeth fanylach am ddysgu'r myfyriwr, ei lwyddiant a'r sgiliau y mae wedi eu meistroli na'r system draddodiadol o ddosbarthiadau gradd. Gall myfyrwyr edrych arnynt tra byddant yn astudio neu ar ôl graddio a gall eu cynorthwyo i ddangos i gyflogwyr fod ganddynt y sgiliau angenrheidiol ar gyfer eu penodi.

Darperir gan: Tîm Mynd yn Fyd-eang, y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol, ACA, Uned Partneriaethau Academaidd

Rhesymeg: Mae'r holl fentrau a restrwyd uchod wedi eu bwriadu i hyrwyddo profiad ehangach i fyfyrwyr, sydd hefyd yn canolbwyntio ar y wybodaeth a'r sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt mewn recriwtiaid newydd, gan alluogi myfyrwyr i gadw i fyny a lle bo modd gael mantais gystadleuol fydd yn gwella eu cyflogadwyedd.

Targedau:

- **Cyfleoedd Symudedd**: Parhau i gynyddu cyfanswm y myfyrwyr sy'n cyfranogi i 550 ar gyfer 2018-19 (426 yn 2015-16)
- **Parth a Lleoliadau Cyflogaeth** – yn 15-16 cyflawnwyd - 546, targed 16-17 yn 573, targed 17-18 yn 602, targed **18-19 yn 632**
- **Gwobr ACA** - niferoedd y myfyrwyr yn cofrestru ac yn cwblhau Gwobr ACA:
  - **2015-16 - Cofrestru:** 1,900: Cwblhau: 993 (mewn gwirionedd)
  - **2016-17 - Cofrestru:** 2,000: Cwblhau: 1,000
  - **2017-18 - Cofrestru:** 2,200: Cwblhau: 1,200
  - **2018-19 - Cofrestru:** 2,500: Cwblhau: 1,500
- **Targedau Cyrchfannau Ymadawyr addysg Uwch (DLHE):**
  Graddedigion 2014-15 (adroddwyd 2016)
  - Cyflogaeth ac Astudiaeth Bellach = 93.2%
  - Cyflogaeth ar lefel gradd = 80.6%

  Graddedigion 2017-18 (adroddir amdanynt yn 2020 dan y DLHE newydd)
  - Cyflogaeth ac Astudiaeth Bellach = 96%
  - Cyflogaeth ar lefel gradd = 85%

4) Camau gweithredu sy'n hybu addysg uwch Cymru'n fwy effeithiol yn rhyngwladol

Mae gan y Brifysgol **Strategaeth Ryngwladoli** ar gyfer hybu Prifysgol Abertawe ac Addysg Uwch Cymru'n rhyngwladol. Y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol sy'n gyfrifol am hybu Prifysgol Abertawe dramor; recriwtio myfyrwyr rhyngwladol o safon uchel, canfod cyfleoedd tramor i fyfyrwyr Abertawe a sefydlu partneriaethau gyda sefydliadau AU rhyngwladol, cyrff ysgoloriaethau, sefydliadau llywodraethol a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddatblygu partneriaethau sy'n fuddiol i'r ddwy ochr mewn perthynas â gweithgareddau rhyngwladoli. Mae llwyddiant hyn i'w weld yn y niferoedd o fyfyrwyr tramor sy'n dewis astudio yn Abertawe. Rydym hefyd yn cynnal a chadw rhwydwaith alumni ardderchog gydag eiriolwyr o blaid Abertawe dros y byd i gyd.

Mae'r Brifysgol hefyd yn ymwneud â nifer o bartneriaethau strategol lefel uchel, er enghraifft, gyda phrifysgolion yn Texas a Grenoble. Mae'r partneriaethau hyn yn eang ac yn ddwfn, yn ymwneud ag ymchwil ar y cyd, addysgu a gweithgareddau myfyrwyr ar draws ystod eang o feysydd academaidd. Mae cyhoeddusrwydd ac effaith gadarnhaol y rhain yn sylweddol; ym mis Mai 2017, ymwelodd Charge d'Affaires (Llysgennad dros dro yr Unol Daleithiau) â'r Brifysgol i ddysgu mwy am y cysylltiad â Texas.

At hynny, mae'r Brifysgol yn gwneud y canlynol:

- Gweithio i gynyddu cofrestriadau myfyrwyr tramor ymhellach
- Gweithio i wella ymhellach ein cymorth i fyfyrwyr tramor.

- Darparu cyfleoedd i'r holl fyfyrwyr gael gweithio neu astudio dramor er mwyn gwella eu gobeithion o fod yn gyflogadwy.
- Darparu bwrsarïau symudedd i fod yn gymhelliant i fyfyrwyr a'u hamddiffyn rhag effeithiau unrhyw newidiadau pellach yn y ffioedd a'r bwrsarïau am y semestrau neu'r blynyddoedd a dreuliwyd yn astudio dramor, gan gynnwys drwy gynllun ERASMUS+.
- Hybu dealltwriaeth o ddiwylliannau a chymdeithasau eraill.
- Cydweithredu gyda sefydliadau tramor, a ddewiswyd yn benodol am gynnwys eu cyrsiau a/neu gyfleusterau unigryw gan gynnwys cydnabyddiaeth credydau a graddau ar y cyd lle bo hynny'n briodol.
- Gwella'n barhaus ansawdd a maint ein hymchwil.
- Parhau ein gwaith i ddiwygio'r cwricwlwm fel bod mwy o fyfyrwyr yn gallu elwa o astudio a gweithio dramor.

Darperir gan: y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol yn gweithio mewn partneriaeth gyda Cholegau Academaidd ac adrannau Gwasanaethau Proffesiynol eraill

Rhesymeg: Parhau i ddatblygu ôl-troed byd-eang Prifysgol Abertawe, yn unol â'i safle fel sefydliad â statws uchel gyda canolbwynt rhyngwladol. Bydd hyn yn gymorth i recriwtio myfyrwyr a denu cyfleoedd ariannu i'r Brifysgol.

Targedau:

- Cyfran o fyfyrwyr rhyngwladol – 17% erbyn 2018-19 (15% yn 2015-16)
- Parhau i ddatblygu partneriaethau rhyngwladol gweithredol, cynaliadwy ac o fudd i bawb dan sylw ar draws sbectrwm gweithgaredd rhyngwladoli
- Proffil ac enw byd-eang gwell

Mae'r **Gyfarwyddiaeth Partneriaethau Academaidd** (CPA) yn elwa ar gyfleoedd i hybu Sector AU Cymru drwy wneud y canlynol:

- Mae Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth yn Arbenigwr ar Bologna ac yn cynrychioli Abertawe a Chymru mewn cynadleddau cenedlaethol ac Ewropeaidd.
- Cafodd ei benodi'n gyfarwyddwr fel Arbenigwr ar Ddiwygio Addysg Uwch ar gyfer y Comisiwn Ewropeaidd, gan hybu Addysg Ewropeaidd mewn gwledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd (e.e. yr Iorddonen, Azerbaijan).
- Mae'n cynrychioli'r DU ar Bwyllgorau Ymgynghorol y Gymuned Ewropeaidd ac mae wedi gwasanaethu ar Weithgorau a sefydlwyd gan Gymdeithas Prifysgolion Ewrop.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Partneriaethau Academaidd wedi datblygu nifer o fodelau partneriaeth arloesol (e.e. graddau ôl-radd ar y cyd a dwbl gyda phrifysgolion fel y Sorbonne Paris, Grenoble) ledled y byd. Drwy'r mentrau cyffrous hyn mewn gwledydd megis Canada, America, Tsieina a gwledydd Ewrop, mae AU Cymru yn cael ei hybu'n barhaus.

Mae'r Academi ar gyfer Datblygiad Proffesiynol hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu a hybu hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y farchnad dramor.

Darperir gan: Cyfarwyddiaeth Partneriaethau Academaidd

Rhesymeg: Drwy ddiwygiadau Bologna, anogwyd prifysgolion i gydweithio a datblygu graddau arloesol sydd wedi eu bwriadu i wella cyflogadwyedd rhyngwladol y myfyrwyr.

Roedd Prifysgol Abertawe yn un o ychydig o brifysgolion y DU i gofleidio Diwygiadau Bologna a daeth yn un o sefydliadau blaenaf DU am weithredu graddau ar y cyd ledled Ewrop. Gan ddysgu oddi wrth y rhaglenni hyn, mae'r modelau graddau arloesol yn awr yn cael eu cyflwyno i wledydd eraill megis Tsieina, UDA a Chanada. Mae darparu cyrsiau hyfforddiant DPP ar gyfer marchnadoedd tramor yn effeithio ar sector AU Cymru o ran recriwtio dramor, cyfleoedd ymchwil rhyngwladol a chynhyrchu incwm.
Targedau: • Nodi a negodi partneriaeth strategol newydd yn Tsieina • Datblygu 2 radd ar y cyd newydd gyda Grenoble • Cynyddu nifer myfyrwyr PhD ar y cyd yn Grenoble o 50%

5) Camau gweithredu sy'n gwella darpariaeth addysg uwch gynaliadwy:

Mae'r Gyfarwyddiaeth Partneriaethau Academaidd yn datblygu **ystod o raddau arloesol** sy'n cael eu cynnig: gan y Brifysgol ei hun, mewn cydweithrediad â diwydiant (o EngD drwodd i Raddau Sylfaen), mewn cydweithrediad â Cholegau AB, mewn cydweithrediad â phrifysgolion eraill ledled y byd; ar gyfer dysgwyr proffesiynol.
Darperir gan: Cyfarwyddiaeth Partneriaethau Academaidd
Rhesymeg: Bydd y gweithgareddau hyn yn gymorth i'r Brifysgol amrywio ei sylfaen o fyfyrwyr a chreu incwm, ymateb i natur newidiol addysg (h.y. prentisiaethau gradd, symudedd) ac anghenion diwydiant wrth i'r Brifysgol geisio ehangu'r swyddogaeth y mae'n ei chyflawni wrth arwain economi gwybodaeth y rhanbarth.
Targedau: • Datblygu 3 Prentisiaeth Gradd mewn Peirianneg, Gweithgynhyrchu Uwch a TGCh, os bydd yr adnoddau sydd ar gael yn gwneud y cynnig hwn yn bosibl • Sefydlu 10 partneriaeth academaidd gyda phartneriaid o safon uchel

6) **gweithgareddau fydd yn codi ymwybyddiaeth o addysg uwch ymhlith dysgwyr posibl;**
Ymdriniwyd â'r gweithgareddau sy'n cyfrannu i'r amcan hon eisoes mewn man arall.

7) mesurau eraill i gefnogi hybu addysg uwch megis gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau ffioedd a mynediad (nodwch y mesurau hyn, os gwelwch yn dda).

d/b

Cais am ganiatâd i gyflwyno cynllun ffioedd a mynediad 2018/19 i CCAUC

Wrth awdurdodi cais i gyflwyno cynllun ffioedd a mynediad i CCAUC, mae corff llywodraethu yn gwneud y canlynol:

i. cadarnhau bod y wybodaeth a roddwyd yn y cynllun ffioedd a mynediad hwn ar gyfer 2018/19 yn gywir ar amser ysgrifennu, ac yn seiliedig ar ddata y gellir ei ddilysu.

ii. cadarnhau ei bod: **[dilëwch un neu ragor o ddatganiadau, fel bo'n briodol]**
   a. yn dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data ariannol, ansawdd neu wybodaeth/data arall y mae'n ei gadw am ymgeisydd rheoledig cyfredol, p'un a roddwyd y wybodaeth/data gwreiddiol i ddibenion rheoleiddio dan Ddeddf 2015 neu beidio;

iii. deall bod CCAUC yn cadw'r hawl i ymweld ag ymgeiswyr er mwyn deall eu cymhwyster yn well o ran trefnu a rheoli materion ariannol, y data a gyflwynwyd ynghylch cynlluniau ffioedd a mynediad ac ansawdd yr addysg a ddarparwyd, gan neu ar ran ymgeiswyr.

iv. deall bod rhaid iddo roi gwybodaeth, cymorth a mynediad i CCAUC a/neu asiant CCAUC at ei gyfleusterau a chyfleusterau cyrff eraill sy'n darparu addysg uwch ar ei ran.

v. deall y gall CCAUC gynnal, neu drefnu i asiant gynnal, adolygiad yn ymwneud ag ansawdd yr addysg a ddarparwyd gan, neu ar ran yr ymgeisydd, a rhaid i'r corff llywodraethu gymryd i ystyriaeth unrhyw gyngor a roddwyd iddo gan CCAUC neu'r corff a benodwyd gan CCAUC i'r diben hwn.

vi. cadarnhau bod yr holl addysg a ddarparwyd ganddo, neu ar ei ran, waeth beth fo lefel na lleoliad y ddarpariaeth, wedi cael ei chymryd i ystyriaeth yn y cais cynllun ffioedd a mynediad.

vii. cadarnhau bod y sefydliad yn risg isel o ran methu ar sail ariannol dros y tymor canolig i'r tymor hir.

viii. cadarnhau bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig ac nad yw'r archwilydd cofrestredig yr un cwmni/unigolyn ag a wnaeth baratoi'r cyfrifon.

ix. deall bod rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar gyfer addysg uwch.

x. deall bod rhaid anrhydeddu unrhyw ymrwymiadau ariannol i fyfyrwyr a wnaed yn y cynllun ffioedd a mynediad 2017-18 gwreiddiol, fel y'i cymeradwywyd gan CCAUC.

Cyflwyno cynllun ffioedd a mynediad 2018/19 wedi ei Ddiweddaru/Terfynol (lle bo'n berthnasol)	
Dyddiad cymeradwyaeth y Corff Llywodraethu:	02.08.17
Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu: Is-ganghellor Yr Athro Richard Davies	
Dyddiad:	02.08.17

Atodiad Aii: Tablau Data

Tabl A Lefelau ffioedd ac incwm ffioedd a buddsoddiad 2018-19

Tabl B Gwariant disgwyliedig ar incwm Cynllun Ffioedd a Mynediad 2018-19

Tabl C Lefelau ffioedd ac incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr israddedig llawn-amser a TAR o dan y drefn ffioedd newydd 2018-19

Tabl D Lefelau ffioedd ac incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr israddedig a TAR llawn amser o dan y drefn ffioedd newydd ar gyfer darpariaeth partneriaeth seiliedig yn y DU 2018-19

Tabl G Targedau'r Cynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer 2018-19

Cynllun Ffioedd a Mynediad Sefydliadol 2018/19
Tabl A: Lefelau ffioedd ac incwm ffioedd a buddsoddiad, 2018/19

Enw'r sefydliad: Prifysgol Abertawe
UKPRN y Sefydliad: 10007855

Data yn ymwneud â cyrsiau israddedig llawn amser (LIA) a TAR (QTS) LIA y mae gennych reolaeth arnynt, sy'n dod o dan drefn ffioedd ôl-2012/13 yn 2018/19, sydd i gael eu rhoi yn y tabl hwn.

Os ydych yn darparu cyrsiau sydd â blwyddyn allan, megis blwyddyn allan ar leoliad diwydiannol, neu flwyddyn dramor, ac mae lefelau ffioedd gwahanol yn cael eu codi am y blynyddoedd hyn, yna dylid cymryd hyn i ystyriaeth wrth gyfrifo'r ffi gyfartalog a chyfanswm incwm ffioedd a roddir yn y tabl hwn.

Am arweiniad pellach a diffiniadau a ddefnyddir yn tabl hwn, gwelwch **Atodiad B** y canllawiau.

a) Beth yw eich cyfradd ffi uchaf arfaethedig ar gyfer:

	£
Myfyriwr israddedig llawn amser	9,000
Myfyriwr TAR (QTS) llawn amser	

b) Fydd y ffioedd arfaethedig yn a) (uchod) yn cael eu codi am yr holl ddarparieth addysg uwch israddedig, llawn amser a TAR (QTS) yn eich sefydliad neu sy'n cael ei darparu ar eich rhan?

	Rhowch Bydd neu Na
Myfyriwr israddedig llawn amser	Na
Myfyriwr TAR (QTS) llawn amser	

c) Os na, beth yw eich ffi gyfartalog (gymedrig) fesul myfyriwr israddedig llawn amser a TAR (QTS) yn debygol o fod?

	£
Myfyriwr israddedig llawn amser	8,432
Myfyriwr TAR (QTS) llawn amser	
Yr holl fyfyrwyr israddedig/TAR (QTS) llaw	8,432

d) Pa incwm trefn ffioedd ôl-2012/13 ydych chi'n disgwyl ei dderbyn yn 2018/19? Dylech gynnwys yr holl incwm ffioedd a dderbyniwyd fesul myfyriwr israddedig a TAR (QTS) llawn amser.

		£
18346302.6	Myfyriwr israddedig llawn amser	106,664,550
	Myfyriwr TAR (QTS) llawn amser	
	Cyfanswm	**106,664,550**

e) Rhowch fanylion faint o incwm ffioedd yr ydych yn disgwyl ei fuddsoddi mewn perthynas â chyfle cyfartal a hybu addysg uwch. Lle roedd gan ddarparwyr addysg uwch gynlluniau 2017/18, rhaid i'r gyfran o gyfanswm yr incwm a fuddsoddir yn 2018/19 fod o leiaf yr un faint â'r gyfran a fuddsoddwyd yn 2017/18. Ar gyfer yr ymgeiswyr hynny, mae CCAUC wedi rhoi isod swm 2017/18 a'r ganran o gyfanswm yr incwm.

	2018/19		2017/18	
Cyfanswm sydd i gael ei fuddsoddi yn:	£	% o gyfanswm yr incwm	£	% o gyfanswm yr incwm
Cyfle Cyfartal	12,415,458	11.6%	11,272,816	11.4%
Hybu Addysg Uwch	6,059,819	5.7%	5,613,267	5.7%
Cyfanswm	**18,475,277**	**17.3%**	**16,886,083**	**17.1%**

Os yw'r gyfran sydd i gael ei buddsoddi yn 2018/19 yn llai nag yn 2017/18, rhowch sylwebaeth isod:

Cynllun Ffioedd a Mynediad Sefydliadol 2018/19
Tabl B: Gwariant disgwyliedig ar incwm Cynllun Ffioedd a Mynediad 2018/19
Ceir awgrymiadau neu ddilysiadau sydd wedi methu
Enw'r Sefydliad: Prifysgol Abertawe
UKPRN y Sefydliad: 10007855

Y gwariant a ragwelir o incwm y ffioedd a roddwyd yn Nhabl A, wedi ei osod yn erbyn y categorïau isod, sydd i gael ei roi yn y tabl hwn.

Nodyn arweiniad

Mae'r categorïau yn cymryd i ystyriaeth arweiniad Llywodraeth Cymru i CCAUC ynghylch cynlluniau ffioedd a mynediad, a geir yn Atodiad A rhan 2 o gylchlythyr CCAUC, W16/03HE* (paragraffau 4.18 a 4.19). Dylai ymgeiswyr gyfeirio at baragraff 4.15 o arweiniad LlC ar gynlluniau ffioedd wrth gwblhau'r tabl hwn a chategoreiddio gwariant ar amcanion y cynllun ffioedd a mynediad yn erbyn y categorïau isod.

Mae categorïau'r gwariant ar gyfle cyfartal yn ymwneud yn benodol ag unigolion o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch. Mae CCAUC yn cydnabod y gall pob ymgeisydd ddewis cynnwys gweithgareddau cyffelyb o dan gategorïau gwahanol.

Bydd gweithgareddau cefnogi myfyrwyr yn ariannol yn rhan o gyfanswm buddsoddiad yr ymgeisydd mewn categorïau gwariant i gefnogi cyfle cyfartal a/neu hybu addysg uwch (fel y'i gosodwyd yn Nhabl B (a) a (b)). Mae tabl B (d) isod yn gofyn i ymgeiswyr nodi ar wahân y gwariant a ragwelir ar weithgareddau cefnogi myfyrwyr yn ariannol **sydd eisoes wedi eu cynnwys** yn (a) a (b).

Dylai ymgeiswyr osod eu lefel gwariant yn erbyn pob categori priodol. Ni fydd gwariant i'w osod yn erbyn pob categori o angenrheidrwydd.

Lle y rhagwelir gwariant mewn mwy nag un categori, dylid ei rannu rhwng categorïau. Dylai cyfanswm y gwariant yn erbyn a) a b) gyd-fynd â'r swm cyfatebol yn Nhabl A.

***Atodiad A Rhan 2 o gylchlythyr CCAUC W16/03H**

Gwariant disgwyliedig ar incwm Cynllun Ffioedd a Mynediad 2018/19

a) Cyfle Cyfartal

Categorïau o wariant i gefnogi unigolion a dangynrychiolir yn AU i:	2018/19 £	2017/18 £
1. hybu a diogelu mynediad teg i addysg uwch, gan gynnwys nodi unigolion sydd â'r potensial mwyaf o gefndiroedd dan anfantais;	2,919,324	1,534,880
2. denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir;	3,003,982	3,168,960
3. codi uchelgais a sgiliau pobl o grwpiau a dangynrychiolir i'w galluogi i lwyddo mewn addysg uwch;	442,695	248,064
4. cefnogi a chynyddu'r nifer sy'n cael eu cadw, yn gnweud cynnydd ac yn cwblhau, yn enwedig pobl o gymdogaethau lle mae'r gyfranogaeth yn isel, plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadae	2,025,848	1,917,660
5. gwella profiad addysg uwch i grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch;	1,304,420	1,611,764
6. rhoi gwybodaeth effeithiol i grwpiau a dangynrychiolir cyn ac yn ystod eu hastudiaethau;	1,539,410	1,198,764
7. darparu cymorth academaidd a llles o safon uchel i grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch; a	683,264	1,160,759
8. chynorthwyo dilyniant i gyflogaeth neu astudiaeth bellach ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch.	496,514	431,965
9. Arall, er enghraifft, gwerthuso'r cynllun ffioedd a mynediad.	0	0
Cyfanswm	**12,415,458**	**11,272,816**
Canran o'r gwariant a ragwelir sydd i gael ei wario ar Gyfle Cyfartal	67.2%	66.8%

b) Hybu AU

Categorïau gwariant i:	2018/19 £	2017/18 £
1. ymgysylltu'n fwy effeithiol gyda chyrff preifat, cyhoeddus neu wirfoddol a chymunedau yng Nghymru;	806,150	1,386,315
2. gwella ansawdd dysgu ac addysgu, gyda golwg ar ansawdd profiad y myfyriwr;	829,366	477,964
3. cryfhau cyflogadwyedd graddedigion Cymru;	400,637	467,729
4. hybu addysg uwch Cymru'n fwy effeithiol yn rhyngwladol;	2,848,274	976,515
5. darparu addysg uwch gynaliadwy; a	544,404	676,479
6. chodi ymwybyddiaeth o werth addysg uwch i ddarpar ymgeiswyr.	630,988	1,628,265
7. Arall, er enghraifft, gwerthuso'r cynllun ffioedd a mynediad	0	0
Cyfanswm	**6,059,819**	**5,613,267**
Canran o'r gwariant a ragwelir sydd i gael ei wario ar Hybu AU	32.8%	33.2%

c) Cyfanswm y gwariant a ragwelir o incwm cynllun ffioedd a mynediad 2018/19, a) + b)	2018/19 £	2017/18 £
	18,475,276	**16,886,083**

d) Cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr (wedi ei gynnwys eisoes yn a) a b) uchod

	2018/19		2017/18	
	£	Nifer y myfyrwyr y disgwylir eu cefnogi	£	Nifer y myfyrwyr y disgwylir eu cefnogi
Hepgor ffioedd	0	0	0	0
Bwrsarïau	3,300,000	3,300	3,066,200	3,290
Ysgoloriaethau	645,000	1,100	615,000	1,000
Cronfeydd caledi	315,000	1,200	307,500	1,200
Darparu cyngor a sgiliau rheoli arian	253,900	12,000	241,800	10,000
Cymorth ariannol arall		0	0	0
Cyfanswm	**4,513,900**	**17,600**	**4,230,500**	**15,490**
Canran o'r gwariant a ragwelir sydd i gael ei wario ar gefnogaeth ariannol i fyfyrwyr	24.4%		25.1%	

Os yw'r gyfran sydd i gael ei buddsoddi yn 2018/19 yn llai nag yn 2017/18, rhowch sylwebaeth isod:

Mae'r gyfran sydd i gael ei buddsoddi mewn cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr fymryn yn llai nag yn 17/18 ond mae'r union werth dros £280,000 yn fwy. At hynny, disgwylir y bydd cynnydd yn niferoedd y myfyrwyr fydd yn cael eu cefnogi drwy'r cronfeydd hyn.

Cynllun Ffioedd a Mynediad Sefydliadol 2018/19
Tabl C: Lefelau ffioedd ac incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr israddedig llawn-amser a TAR (QTS) dan y drefn ffioedd ôl-2012/13, 2018/19

Enw'r Sefydliad: Prifysgol Abertawe
UKPRN y Sefydliad: 10007855

Dylid cwblhau'r tabl hwn os:
- ydych yn bwriadu codi ffioedd gwahanol am gyrsiau neu garfannau gwahanol, ar gyfer darpariaeth israddedig lawn amser a TAR (QTS) o dan drefn ffioedd ôl-2012/13.
- ydych yn bwriadu codi yr un ffi am yr holl gyrsiau neu garfannau, ar gyfer darpariaeth israddedig lawn amser a TAR (QTS) o dan drefn ffioedd ôl-2012/13, ond bod gennych ddarpariaeth nad ydych yn ei dilysu eich hun.

Lle bydd ffioedd gwahanol yn cael eu codi ar gyrsiau neu garfannau gwahanol, neu lle mae gennych ddarpariaeth nad ydych yn ei dilysu eich hun, bydd y data ar y tabl hwn ynghyd â'r data a roddwyd yn Nhabl D gyda'i gilydd yn rhoi yr un ffi gyfartalog ac incwm ffi cyffredinol â'r hyn a roddwyd yn Nhabl A.
Rhydd yr arweiniad isod y categorïau o gyrsiau y dylid ac na ddylid rhoi gwybodaeth ar eu cyfer. Sylwch fod gwybodaeth am ddarpariaeth a wneir o dan drefniadau partneriaeth yn cael ei chasglu yn Nhabl D.

Nodyn arweiniad

Peidiwch â chynnwys gwybodaeth am gyrsiau:
- Yr ydych chi'n eu darparu ac yn eu rheoli sy'n cael eu dilysu gan gorff arall ac nad ydynt yn rhan o drefniant breiniol.

- Yr ydych chi'n eu darparu, yn eu rheoli ac yn eu dilysu eich hun
- Yr ydych chi'n eu darparu ac yn eu rheoli, sy'n cael eu dilysu gennych chi, eich corff rhiant neu gorff arall, lle rydych chi'n is-gwmni i'r rhiant hwnnw ac nid yw eich rhiant yn cynnwys y cyrsiau yn ei gynllun ffioedd a mynediad.

Peidiwch â chynnwys gwybodaeth am gyrsiau:
- yr ydych chi'n gwerthu'r fasnachfraint i ddarparwr arall.
- yr ydych chi'n eu darparu ar ran darparwr arall drwy gytundeb masnachfraint.
- nad ydych yn eu darparu a dim ond yn eu dilysu.
- sy'n cael eu darparu gan is-gwmni, lle rydych chi'n rhiant yr is-gwmni hwnnw, p'un a yw'r is-gwmni yn cyflwyno ei gynllun ffioedd a mynediad ei hun neu beidio.

Os ydych yn darparu cyrsiau sydd â blwyddyn allan, megis blwyddyn allan ar leoliad diwydiannol, neu flwyddyn dramor, ac mae lefelau ffioedd gwahanol yn cael eu codi am y blynyddoedd hyn, yna dylech roi data ar y tabl hwn i adlewyrchu lefelau gwahanol y ffioedd a godir. Er enghraifft, efallai y bydd hyn yn golygu eich bod yn rhoi un rhes o ddata am yr holl gyrsiau a charfannau y codir ffi addysgu o £9,000 arnynt ac un rhes o ddata ar gyfer carfannau sy'n cymryd blwyddyn allan ac y codir ffi o £1,800 arnynt.

Dylech gategoreiddio eich darpariaeth i lefelau ffioedd gwahanol yn ôl nod y cymhwyster a/neu bwnc a/neu blwyddyn/blynyddoedd y cwrs fel bo'n briodol isod. Mae'r meysydd (dyfarniad y cymhwyster a'r pwnc) yn feysydd testun rhydd ac felly os oes grŵp arall mwy priodol, darparwch wybodaeth am y grŵp hwn yn y meysydd hyn.

Wrth gwblhau colofn blwyddyn/blyddoedd y cwrs, nodwch bob blwyddyn y mae'r ffi yn berthnasol iddi, er enghraifft, '1, 2' neu 'pob un'. Dylid defnyddio 0 ar gyfer blynyddoedd sylfaen.

Os ydych yn codi'r un ffi ar gyfer yr holl gyrsiau neu garfannau ond bod gennych ddarpariaeth nad ydych yn ei dilysu eich hun, yna dylech gynnwys eich holl ddarpariaeth israddedig, lawn amser a'ch darpariaeth TAR (QTS) o dan drefn ffioedd ôl-2012/13. Dylid cynnwys rhes o ddata ar gyfer pob corff sy'n dilysu ynghyd â rhes ar gyfer unrhyw ddarpariaeth yr ydych chi eich hun yn ei dilysu.

Ar gyfer pob categori sydd wedi ei gynnwys rhowch fanylion eich niferoedd disgwyliedig o fyfyrwyr.

Am arweiniad pellach a diffiniadau a ddefnyddir yn y tabl hwn, gwelwch Atodiad B y canllawiau.

Data cryno	Israddedig Llawn Amser	TAR (QTS) Llawn Amser
Cyfanswm incwm disgwyliedig	105,929,550	0
Cyfanswm y niferoedd disgwyliedig o fyfy	12,555	0
Ffi gyfartalog	8,437	

Rhes	Ffi arfaethedig £	Nod y cymhwyster (neu grŵp arall)	Pwnc (neu grŵp arall)	Blwyddyn/Blynyddoedd y cwrs	TAR (QTS) Ie/Na?	Niferoedd myfyrwyr a ragwelir a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r ffi gyfartalog	Ydy'r ddarpariaeth hon yn cael ei dilysu gan gorff arall? Ydy / Nac ydy	Os ydy, rhowch enw'r corff dilysu	Cyfanswm incwm ffioedd disgwyliedig (nifer y myfyrwyr x y ffi arfaethedig) £
1	9,000	Gradd Baglor gydag Anrhydedd Tystysgrif Addysg Uwch (cwrs blwyddyn llawn amser) Gradd gyntaf mewn Iechyd/Milfeddygaeth neu gymhwystra tebyg seiliedig ar gymwysterau blaenorol i ddechrau cwrs ym mlwyddyn 2 neu 3 Gradd Gyntaf well (gradd 4 blynedd yn arwain at gymhwyster Meistr)		Pob blwyddyn ac eithrio blwyddyn allan dramor neu mewn diwydiant	N	11,588	N		104,292,000
2	1,350	Gradd Baglor gydag Anrhydedd - blwyddyn dramor		Bl 3	N	229	N		309,150
3	1,800	Gradd Baglor gydag Anrhydedd - blwyddyn mewn diwydiant (blwyddyn 3) Gradd Gyntaf well - blwyddyn mewn diwydiant (blwyddyn 4)		Bl 3 neu 4	N	738	N		1,328,400

Cynllun Ffioedd a Mynediad Sefydliadol 2018/19
Tabl D: Lefelau ffioedd ac incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr israddedig llawn-amser a TAR (QTS) o dan y drefn ffioedd ôl-2012/13 ar gyfer darpariaeth partneriaeth seiliedig yn y DU 2018/19

Enw'r Sefydliad: Prifysgol Abertawe
UKPRN y Sefydliad: 10007855

Dylai'r tabl hwn gael ei gwblhau gan yr holl ddarparwyr sy'n gwerthu masnachfraint i ddarparwyr elusennol eraill sy'n elusennau neu'n rhieni i is-gwmnïau elusennol, nad ydynt yn cyflwyno eu cynllun ffioedd a mynediad eu hunain, ar gyfer darpariaeth israddedig, lawn amser a TAR (QTS) o dan drefn ffioedd ôl-2012/13. Ni ddylid cwblhau'r tabl ond os yw'r darparwr arall neu'r is-gwmni yn y DU a'r myfyrwyr yn seiliedig yn y DU.
Lle y codir ffioedd gwahanol am wahanol gyrsiau, neu lle y ceir darpariaeth sy'n cael ei dilysu gan gorff ar wahân i'r darparwr sy'n cyflwyno, bydd y data yn y tabl hwn ynghyd â'r data a roddwyd yn Nhabl C gyda'i gilydd yn rhoi yr un ffi gyfartalog ac incwm ffioedd cyffredinol â'r hyn a roddwyd yn Nhabl A. Lle mae'r ffi yr un fath ar gyfer pob cwrs israddedig, llawn amser/TAR (QTS) o dan drefn ffioedd ôl-2012/13, fel y dangosir yn Nhabl A, bydd lefelau'r ffioedd a roddir yn y tabl hwn i gyd yn gyfartal a'r un fath â lefel y ffioedd a roddwyd yn Nhabl A.

Rhydd yr arweiniad isod gategorïau'r cyrsiau y dylid ac na ddylid rhoi gwybodaeth ar eu cyfer.

Nodyn arweiniad

Cofiwch gynnwys gwybodaeth am gyrsiau:
- lle yr ydych chi'n gwerthu'r fasnachfraint i ddarparwr elusennol arall.
- sy'n cael eu darparu gan is-gwmni elusennol, lle rydych chi'n rhiant yr is-gwmni hwnnw, ac nad yw'r is-gwmni yn cyflwyno ei gynllun ffioedd a mynediad ei hun.

Peidiwch â chynnwys gwybodaeth am gyrsiau:
- yr ydych chi'n eu darparu ar ran darparwr arall drwy gytundeb masnachfraint.

- yr ydych chi'n eu darparu ac yn eu rheoli, sy'n cael eu dilysu gan gorff arall ac nad ydynt yn rhan o drefniant breiniol.

- yr ydych chi'n eu darparu, yn eu rheoli ac yn eu dilysu eich hun
- yr ydych chi'n eu darparu ac yn eu rheoli, sy'n cael eu dilysu gennych chi, eich corff rhiant neu gorff arall, lle rydych chi'n is-gwmni i'r rhiant hwnnw.
- nad ydych yn eu darparu a dim ond yn eu dilysu.

- sy'n cael eu darparu gan is-gwmni, lle rydych chi'n rhiant yr is-gwmni hwnnw, ac mae'r is-gwmni yn cyflwyno ei gynllun ffioedd a mynediad ei hun.
- lle yr ydych chi'n gwerthu'r fasnachfraint i ddarparwr arall nad yw'n elusennol.

- sy'n cael eu darparu gan is-gwmni heb fod yn elusnnol, lle rydych chi'n rhiant yr is-gwmni hwnnw.

Wrth gwblhau colofn blwyddyn/blynyddoedd y cwrs, nodwch bob blwyddyn y mae'r ffi yn berthnasol iddi, er enghraifft, '1, 2' neu 'pob un'. Dylid defnyddio 0 ar gyfer blynyddoedd sylfaen.

Lle mae cytundebau partneriaeth wedi eu llofnodi cyn 1 Medi 2015 cadarnhewch eu bod yn cynnwys adendwm yn cadarnhau bod y ddarpariaeth wedi ei chynnwys dan Ddeddf AU. Lle nad oes adendwm o'r fath yn bodoli, mae angen eglurhad a dylid ei gyflwyno gydag Atodiad Aii wedi ei gwblhau

Am arweiniad pellach a diffiniadau a ddefnyddir yn y tabl hwn, gwelwch Atodiad B y canllawiau.

Data cryno	Israddedig Llawn Amser	TAR (QTS) Llawn Amser
Cyfanswm incwm disgwyliedi	735,000	0
Cyfanswm y niferoedd disgwy	95	0
Ffi gyfartalog	7,737	

Rhes	Enw partner	Cyfeiriad partner	Cadarnhewch fod y partner yn elusen (*Cadarnhawyd*)	Nod y cymhwyster Dewiswch o'r rhestr gwympo	Teitl y cwrs	TAR (QTS) Ie/Na?	Dyddiad y cytundeb partneriaeth DD/MM/BBBB	Lle bo dyddiad y cytundeb partneriaeth cyn 1 Medi 2015, mae yna adendwm sy'n cadarnhau bod y ddarpariaeth wedi ei chynnwys dan Ddeddf AU (*Cadarnhawyd*)	Blwyddyn / Blynyddoedd y cwrs	Nifer y myfyrwyr a ragwelir a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r ffi gyfartalog	Ffi arfaethedig £	Cyfanswm incwm ffioedd disgwyliedig (nifer y myfyrwyr x y ffi arfaethedig) £
1	Coleg Cambria	Ffordd Kelsterton, Cei Conna, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint, CH5 4BR	Cadarnhawyd:	(c) gradd sylfaen	FdEng Peirianneg Awyrennau a Gweithgynhyrchu	N	20.07.16	Cadarnhawyd:	1 a 2	30	7,500	225,000
2	Coleg Cambria	Ffordd Kelsterton, Cei Conna, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint, CH5 4BR	Cadarnhawyd:	(a) gradd gyntaf	BEng Peirianneg Awyrennau a Gweithgynhyrchu	N	20.07.16	Cadarnhawyd	1	15	9,000	135,000
3	Coleg Cambria	Ffordd Kelsterton, Cei Conna, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint, CH5 4BR	Cadarnhawyd	(c) gradd sylfaen	FdSci Rheoli Busnes Cymhwysol i'w ddarparu'n hyblyg i ganiatáu ar gyfer astudio llawn amser a rhan-amser	N	31.07.17	Cadarnhawyd	1 a 2	30	7,500	225,000
4	Coleg Cambria	Ffordd Kelsterton, Cei Conna, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint, CH5 4BR	Cadarnhawyd	(c) gradd sylfaen	FdEng Peirianneg Gweithgynhyrchu	N	31.07.17	Cadarnhawyd	1 a 2	20	7,500	150,000

Cynllun Ffioedd a Mynediad Sefydliadol 2018/19
Tabl G: Targedau

Enw'r Sefydliad: Prifysgol Abertawe
UKPRN y Sefydliad: 10007855

Nodyn arweiniad

Dylai cynllun ffioedd a mynediad gynnwys targedau sefydliadol SMART sy'n cyfrannu i ddangos ymrwymiad yr ymgeisydd i gynyddu a/neu gynnal nifer y myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch, neu amcanion eraill y cynllun ffioedd a mynediad, fel bo'n briodol. Dylai'r targedau ddangos lefel yr uchelgais, cyflymder y cynnydd a'r pellter a deithiwyd gan ymgeiswyr o ganlyniad i ddarpariaeth a buddsoddiad y cynllun ffioedd a mynediad.

Mae CCAUC yn derbyn nad yw'n fuddiol nac yn ystyrlon gosod targedau ym mhob maes o'r cynllun ffioedd a mynediad. Bydd ar ymgeiswyr eisiau bodloni eu hunain bod ganddynt ddigon o dargedau i ddarparu adroddiad llawn a manylion ar lefel y buddsoddiad cyhoeddus y mae'r cynllun ym ymwneud ag ef. Bydd lefel y buddsoddiad cyhoeddus yn gwahaniaethu rhwng sefydliadau yn osgystal â nifer y targedau.

Am arweiniad pellach a diffiniadau a ddefnyddir yn y tabl hwn, gwelwch **Atodiad B** y canllawiau. 15-16

Rhes	Disgrifiad o'r targed (uchafswm o 500 llythyren/rhif)	Categori gwariant cysylltiedig (fel y rhestrwyd yn nhabl B a) and B b)) Dewiswch o'r rhestr gwympo	A yw cyrraedd y targed yn gyfrifoldeb mwy nag un ymgeisydd cynllun ffioedd a mynediad?		Blwyddyn gynta	Data cychwynnol Rhowch niferoedd a/neu ganrannau lle bo'n briodol		Targed		Targedau tymor hwy dewisol				Rhowch sylwebaeth ar dargedau 2018/19 lle nad yw disgrifiadau rhifiadol yn briodol. Byddem yn disgwyl i'r rhan fwyaf o dargedau fod yn seiliedig ar rifau (uchafswm o 500 llythyren/rhif)
			Ydy/Na	Os ydy rhowch enw'r partner				2018/19		2019/20		2020/21		
						Rhif	%	Rhif	%	Rhif	%	Rhif	%	
3	**Ehangu Cyfranogaeth** - y gyfran o'r holl fyfyrwyr israddedig, blwyddyn gyntaf, gradd gyntaf, sy'n byw yn y DU (hefyd yn seiliedig ar bob dull, cod post gwladol, cyfwerth â pherson llawn (FPE)) sy'n astudio ym Mhrifysgol Abertawe, sydd o ardaloedd cyfranogaeth isel yn y DU.	a1, a2, a3, a6, b6	N		15-16	1,174	30.8%	**1,356**	**31.6%**					
4	**Ehangu Cyfranogaeth - Dim yn parhau** - Y gyfran o'r myfyrwyr israddedig, blwyddyn gyntaf, gradd gyntaf, llawn amser [sy'n byw yn y DU seiliedig ar god post gan ddefnyddio blwyddyn poblogaeth 1 Dangosydd Perfformiad (DP) yr Awdurdod Safonau Addysg Uwch (HESA), ac eithrio myfyrwyr israddedig eraill di-radd, FPE] nad ydynt bellach mewn addysg uwch yn dilyn y flwyddyn mynediad.	a2, a4, a7	N		14-15	61	5.7%	**86**	**6.7%**					
5	**Myfyrwyr Incwm Isel** - Y gyfran o fyfyrwyr israddedig, blwyddyn gyntaf (gradd gyntaf) (FPE) sy'n derbyn bwrsari dilyniant incwm isel y Brifysgol.	a1, a2, a3, a6, b6	N		15-16	1,112	23.6%	**1,145**	**21.6%**					
6	**Myfyrwyr Incwm Isel - Dim yn parhau** - Y gyfran o fyfyrwyr israddedig, blwyddyn gyntaf (gradd gyntaf) sy'n derbyn bwrsari dilyniant incwm isel y Brifysgol, nad ydynt bellach mewn addysg uwch yn dilyn y flwyddyn mynediad [seiliedig ar boblogaeth blwyddyn 1 sy'n byw yn y DU, DP HESA, ac eithrio myfyrwyr israddedig eraill, FPE].	a2, a4, a7	N		14-15	67	6.1%	**64**	**5.6%**					
8	**Plant sy'n derbyn Gofal (LAC)** - nifer y plant LAC sy'n dilyn gradd gyntaf israddedig yn y Brifysgol [myfyrwyr blwyddyn gyntaf FPE].	a1, a2, a3, a6, b6	N		15-16	21	0.4%	**27**	**0.5%**					
9	**Cyfrwng Cymraeg** - nifer y myfyrwyr (FPE) sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch yn Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe, sy'n astudio o leiaf **5 credyd** o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.	a1, a2, a3, a6, b6	N		15-16	299		**430**						
10	**Cyfrwng Cymraeg** - Nifer y myfyrwyr (FPE) sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch yn Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe, sy'n (ii) astudio o leiaf **40 credyd** o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg	a1, a2, a3, a6, b6	N		15-16	102		**150**						
11	**Myfyrwyr Rhan-amser - Cyfranogaeth** - Y gyfran o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf, israddedig gradd gyntaf (FPE) sy'n dilyn gradd ran-amser	a1, a2, a3, a6, b6	N		15-16	50	1.1%	**133**	**2.5%**					
12	**Myfyrwyr Rhan-amser - Dim yn parhau** - Y gyfran o fyfyrwyr israddedig rhan-amser nad ydynt mewn addysg uwch mwyach, ddwy flynedd yn dilyn y flwyddyn mynediad [Tabl T3e_1415 HESA yn defnyddio data wedi ei dalgrynnu).	a2, a4, a7	N		13-14	15	22.4%	**33**	**25.0%**					
13	**Myfyrwyr Anabl - Cyfranogaeth** - Y gyfran o fyfyrwyr israddedig, blwyddyn gyntaf, gradd gyntaf (FPE) sy'n datgan anabledd.	a1, a2, a3, a6, b6	N		15-16	449	9.5%	**557**	**10.5%**					
14	**Myfyrwyr Anabl - Dim yn parhau** - Y gyfran o fyfyrwyr israddedig, llawn amser, blwyddyn gyntaf, gradd gyntaf (FPE) sy'n datgan anabledd nad ydynt mwyach mewn addysg uwch, yn dilyn y flwyddyn mynediad [seiliedig ar boblogaeth blwyddyn 1 sy'n byw yn y DU, DP HESA, gan eithrio myfyrwyr israddedig eraill, FPE].	a2, a4, a7	N		14-15	27	7.2%	**32**	**5.8%**					
15	**Myfyrwyr BAME (sy'n byw yn y DU)** - Cyfranogaeth - Y gyfran o fyfyrwyr israddedig, blwyddyn gyntaf, gradd gyntaf (FPE) sydd o gefndir BAME.	a1, a2, a3, a6, b6	N		15-16	462	9.8%	**742**	**14.0%**					

16	**Myfyrwyr BAME (sy'n byw yn y DU) - Dim yn parhau** - Y gyfran o fyfyrwyr israddedig, sy'n byw yn y DU, gradd gyntaf, blwyddyn gyntaf (FPE) o gefndir BAME, nad ydynt mwyach mewn addysg uwch, yn dilyn y flwyddyn mynediad [seiliedig ar boblogaeth blwyddyn 1, DP HESA, gan eithrio myfyrwyr israddedig eraill].	a2, a4, a7	N		14-15	25	5.8%	**43**	**5.8%**					
17	**Symudedd Rhyngwladol** - Cyfanswm y myfyrwyr sy'n ymgymryd â gwaith neu gyfleoedd astudio dramor	a5, b2, b3	N		15-16	426		**550**						
18	**Rhyngwladoli** - Myfyrwyr tramor fel canran o'r holl fyfyrwyr. (FPE seiliedig ar eu gwlad. HESA)	b4, b5	N		15-16	2,670	15.3%	**2,976**	**16.9%**					
19	**Profiad y Myfyriwr** - Canran y myfyrwyr sy'n fodlon ar y profiad yn gyffredinol (NSS).	a5, b2	N		15-16		90.0%		**92.0%**					
20	**Cyflogadwyedd Graddedigion** - Cyfran y rhai a adawodd Brifysgol Abertawe sydd wedi mynd i mewn i waith proffesiynol neu astudiaeth bellach ar lefel gradd, bymtheng mis ar ôl gadael. [Seiliedig ar gyfrifiad y Times University Guide sy'n ymwneud â gadawyr sy'n byw yn y DU, gradd gyntaf, llawn amser gan ddefnyddio codau SOC 2010 ar gyfer cyflogaeth broffesiynol]	a8, b3	N		15-16		82.6%		**85.0%**					Mae targed 2018-19 yn ymwneud â charfan myfyrwyr 2017-18, sef y rhai fydd y cyntaf i gael eu holi 15 mis ar ôl graddio. Bydd y canlyniadau ar gael yn Ionawr 2019
22	**Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)** - Nifer cyrsiau byrion DPP	b1, b3, b5	N		15-16	15		30						
23	**Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)** - Nifer y dysgwyr proffesiynol cofrestredig	b1, b3, b5	N		15-16	0		200						